

**Strategaeth Gymunedol Integredig**  
i Sir Gaerfyrddin  
2011-16





Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu ddisg, cysylltwch â'r

**Tîm Polisi Corfforaethol,  
Neuadd y Sir Caerfyrddin**

**01267 224914**

[cynlluniocymunedol@sirgar.gov.uk](mailto:cynlluniocymunedol@sirgar.gov.uk)

[www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk](http://www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk)

# Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin 2011-16

**Croeso i Strategaeth Gymunedol Integredig gyntaf Sir Gaerfyrddin, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf, o 2011 i 2016. Mae amrywiaeth o sefydliadau o bob sector yn Sir Gaerfyrddin wedi cydweithio i ddatblygu'r Strategaeth hon, a'r nod yw mynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu fel sir yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud eto, ond mae'r Strategaeth hon yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer gweithredu yn y dyfodol a'r ymrwymiad a wnaed gan holl bartneriaid y sir.**

## Ein gweledigaeth

**Yw Sir Gaerfyrddin sy'n galluogi pobl i fyw bywyd iach a chyflawn trwy gydweithio i greu cymunedau cadarn, dwyieithog a chynaliadwy.**

Ystyr hynny fydd rhywle lle mae cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn cael eu rhannu, lle mae cydweithredu rhwng sefydliadau'n sicrhau bod gwasanaethau'n gydgyssylltiedig ac mae pobl yn cydnabod eu cyfrifoldebau yn ogystal â'u hawliau ac yn barod i gydweithio â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu newid. Rydym eisiau adeiladu ar natur unigryw Sir Gaerfyrddin fel ei bod yn arweinydd ym maes cynaliadwyedd; yn sir sy'n cynnal a gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ein dinasyddion er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Yn sir sy'n croesawu amrywiaeth ac yn cynnal a datblygu ei threftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg.

Mae'r Strategaeth hon yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor i Sir Gaerfyrddin, gweledigaeth uchelgeisiol, arloesol a llawn dyhead, sy'n nodi'r canlyniadau rydym eisiau eu cyflawni i'n cymunedau, ar ran ein cymunedau a chyda'n cymunedau. Rydym yn nodi'r hyn yr ydym eisiau ei wneud, enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn, a'r un mor bwysig, yr hyn y gallwch chi ei wneud fel unigolion i gymryd cyfrifoldeb am greu cymdeithas iach, hapus a llewyrchus.

Mae'r holl sefydliadau partner yn gwario miliynau o bunnoedd bob blwyddyn ar wasanaethau lleol. Rydym eisiau sicrhau bod ein holl wasanaethau'n cael eu cyflenwi'n effeithlon ac yn effeithiol. Dyna pam yr ydym wedi nodi gweithredoedd ac ymrwymadau ar gyfer y blynyddoedd nesaf a fydd yn helpu i gyflawni gwelliannau sy'n gwneud pobl yn greiddiol i'n ffordd o feddwl. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn creu nifer o heriau i'n sir ond mae hefyd yn creu cyfle i sefydliadau a phobl yn Sir Gaerfyrddin gydweithio i roi sylw i flaenoriaethau ein dinasyddion.

Bydd diweddariadau a gwybodaeth ar gynnydd y Strategaeth yn cael eu gosod ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin yn gyson. Ewch i [www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk](http://www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk) i gyfeirio atynt a'u hystyried.

Mae'r Strategaeth hon wedi rhoi cyfle i ni ymgynghori â'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau ein bod ni'n pennu'r weledigaeth a'r canlyniadau cywir i'n cymunedau, i sicrhau ein bod yn gweithio ar y blaenoriaethau cywir at y dyfodol, a'n bod yn canolbwyntio'n hymdrechion a'n hadnoddau yn y meysydd cywir. Diolch i chi am eich syniadau a'ch sylwadau ar y ddogfen a'r trywydd y mae'n ei nodi gan ein bod wedi ymrwymo i barhau â'r gwelliannau a wnaethom hyd yma ym mhob maes. Ni fydd hyn yn llwyddo ond gyda'ch syniadau a'ch cymorth chi, felly gofynnir i chi neilltuo amser i ddarllen y Strategaeth a gweld yr hyn y gallwch chi ei wneud er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

### Y Cynghorydd Meryl Gravell

Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau  
Lleol Sir Gaerfyrddin

Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin

### Chris Martin

Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau  
Lleol Sir Gaerfyrddin

Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Hywel Dda

## 1. Cefndir a Chyd-destun

### Beth yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

Partneriaeth hynod ddylanwadol yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sydd â nodau ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin ac sy'n ceisio cyflenwi'r gwasanaethau gorau posibl i'r sir. Mae'n cyfarfod bob deufis er mwyn dwyn ynghyd arweinwyr a phrif weithredwyr o sefydliadau partner allweddol sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin. Mae presenoldeb uwch was sifil sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i gydweithio'n agos er mwyn dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a goresgyn unrhyw rwystrau ac atalfeydd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Sir Gaerfyrddin wedi cymryd camau breision ymlaen wrth wella a darparu gwasanaethau i bobl ledled y Sir. Fodd bynnag, ni all un sefydliad wireddu'r weledigaeth i Sir Gaerfyrddin ar ei ben ei hun. Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn gyfle i integreiddio'n wirioneddol y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr holl bartneriaid i wella gwasanaethau ar gyfer ein pobl ac i bennu gweledigaeth heriol i'r sir at y dyfodol.

### Sut mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn wahanol?

Yn y gorffennol, dogfen annibynnol oedd y Strategaeth Gymunedol, oedd yn cysylltu â strategaethau a chynlluniau eraill yr oedd yn ofynnol eu paratoi i Lywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin, mewn cytundeb â phob un o'r partneriaethau strategol, wedi cytuno ar ymagwedd newydd, sef paratoi Strategaeth Gymunedol Integredig sy'n nodi'r trywydd i'r sir yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan ymgorffori'r dogfennau canlynol oedd yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn y gorffennol:

- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Tlodi Plant
- Strategaeth Gymunedol
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Diogelwch Cymunedol
- Cysylltiadau yn Sir Gaerfyrddin (Strategaeth Adfywio)
- Cynllun Gweithredu Amgylcheddol

Mae gan bob partneriaeth strategol ran bwysig iawn i'w chwarae wrth ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth a nodir eu meysydd gwaith allweddol ym mhroffiliau'r partneriaethau (gweler tudalen 38).

Mae pob un o'r partneriaethau strategol wedi cytuno ar gyfres o ganlyniadau sydd i'w cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf a chyflwynir y rhain yn ddiweddarach yn y ddogfen (gweler tudalennau 15).

Byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol, wedi'i seilio ar ganlyniadau'r strategaeth, a bydd pob un o'r partneriaethau strategol yn cyfrannu ato er mwyn dangos sut maent yn cyflawni'r canlyniadau.

## **Sut mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn cysylltu â'r Cynllun Datblygu Lleol?**

Y Strategaeth Gymunedol Integredig a'r Cynllun Datblygu Lleol fydd yr unig ddwy ddogfen statudol y bydd Sir Gaerfyrddin yn eu cyhoeddi.

Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn cyflwyno'r weledigaeth strategol ar gyfer y sir ac yn disgrifio sut y bydd sefydliadau a phartneriaethau'n cydweithio i gryfhau a gwella'r canlyniadau i bobl Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyflwyno polisiau a chynigion yr awdurdod lleol, ar sail ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal weinyddol yn y dyfodol.

Mae'r ddwy ddogfen yn dibynnu ar ei gilydd i raddau helaeth iawn ac wedi cael eu datblygu ar y cyd er mwyn sicrhau trywydd clir ar gyfer datblygu'r sir yn y dyfodol.

## **Sut mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig wedi cael ei pharatoi?**

Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig wedi cael ei pharatoi mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r partneriaethau strategol a fu'n cynnal y Strategaeth Gymunedol flaenorol. Mae hefyd wedi'i seilio ar ymgynghori gyda phartneriaid, cymunedau buddiant, cynghorau Tref a Chymuned a chymunedau ledled Sir Gaerfyrddin. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, rydym wedi sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau statudol wedi cael eu cyflawni ac wedi ceisio nodi meysydd newydd ar gyfer gwella a chydweithredu. Rydym wedi edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud eisoes, yr hyn rydym wedi'i wneud yn y gorffennol i'n symud i'r cyfeiriad iawn, ac wedi nodi gweithredoedd ar gyfer y dyfodol. Yr un mor bwysig, rydym wedi nodi'r hyn y gall unigolion a chymunedau ei wneud eu hunain i gyfrannu at wireddu'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae perthnasau cryf rhwng y sector gyhoeddus a'r trydydd sector yn Sir Gaerfyrddin, ac maent yn sylfaen i'r trefniadau Compact sydd ar waith yn y sir. Cytundeb strategol yw'r Compact, sydd â'r nod o gryfhau a ffurfioli perthnasau rhwng y sectorau. Mae Compact Sir Gaerfyrddin yn gytundeb teir-ran rhwng yr Awdurdod Lleol, y trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sylfaen i bob gweithred sy'n effeithio ar Blant a Phobl Ifanc. Mae'r hawliau yma wedi eu seilio ar yr hyn sydd ei angen ar bob plentyn i oroesi, tyfu, cyfranogi a chyflawni eu potensial. Maent yn hawliau sydd yr un mor berthnasol i bob plentyn, pwy bynnag ydynt ac o ble bynnag maent yn dod.

Mae Pobl Ifanc wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y Strategaeth hon ac wedi cynhyrchu eu holiadur eu hunain er mwyn canfod sut mae pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin yn teimlo. Ein bwriad, wrth son am "bobl" yw cyfeirio at unigolion o bob oed.

Gan fod hon yn Strategaeth Integredig, mae cyfle gennym i sicrhau fod Hawliau'r Plentyn yn cael eu hystyried a'u gweithredu ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau ledled Sir Gaerfyrddin.

Bydd y Strategaeth Gymunedol Integredig yn canolbwyntio ar bum canlyniad strategol, sydd i gyd yn cyfrannu at y weledigaeth drosfwaol i'r sir:

- Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
- Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
- Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
- Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
- Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus

## **Y Darlun Mwy – sut mae'n cysylltu â materion rhanbarthol, cenedlaethol a hyd yn oed byd-eang?**

Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn nodi'r trywydd i ni yn Sir Gaerfyrddin ac yn ystyried sut y gallwn ni gydweithio er mwyn gwireddu ei nodau. Mae hi hefyd yn ystyried sut yr ydym ni yn ymgysylltu â phartneriaid eraill er mwyn ymateb i heriau a newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Ar lefel fyd-eang mae nifer o heriau y mae angen i bawb ymateb iddynt yn cynnwys cynhesu byd-eang, poblogaeth sy'n heneiddio, defnydd o ynni a'r economi. Ar lefel lleol rydym yn gwneud ein rhan drwy weithredu'n lleol a chefnogi newid a chynnydd yn erbyn yr heriau hyn.

Ar lefel genedlaethol, gosodir y blaenoriaethau naill gan Lywodraeth y DU (mewn meysydd megis yr Heddlu) neu gan Lywodraeth Cymru. Ar lefel lleol byddwn yn ystyried ac yn ymateb i'r blaenoriaethau cenedlaethol yma ac yn nodi sut y byddwn yn gweithio, drwy bartneriaethau, i sicrhau cynnydd yn eu herbyn.

Ar lefel ranbarthol rydym yn awyddus i sicrhau ein bod, lle bo'n briodol ac yn bosib, yn cydweithio â phartneriaid cyfagos yn Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys a Cheredigion, ac weithiau gyda eraill. Oherwydd y sefyllfa ariannol y byddwn oll yn ei hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd yn hanfodol ein bod ni yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd i gydweithio gan wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael.

## **Sut gallaf i gymryd rhan?**

Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig hefyd yn cynnig cyfle i chi gymryd rhan mewn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yn y ffordd orau posibl. Ym mhob rhan o'r strategaeth fe welwch adran 'Beth gallwch chi ei wneud'. Mae hyn yn helpu i nodi camau y gallwch chi eu cymryd i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein sir er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

Gallwch hefyd gymryd rhan trwy ymateb i ymarferiadau ymgynghori, dod yn aelod o'r panel dinasyddion neu gysylltu â'ch cynghorydd lleol.

Fel cynrychiolydd cymunedol mae'n bosibl eich bod eisoes yn cymryd rhan mewn gwahanol grwpiau neu rwydweithiau, er enghraifft eich cymdeithas tenantiaid neu breswylwyr leol, neu gallech ddod yn aelod o'r Fforwm 50+ trwy fynd i [www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/50Plus/Pages/home.aspx](http://www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/50Plus/Pages/home.aspx)

Os ydych yn yr ysgol neu'n 25 oed neu iau gallwch chi ymuno â chynghor yr ysgol neu Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Mae'n bosibl bod gennych ddiddordeb penodol yr hoffech ymwneud ag ef, ac mae llawer o gyfleoedd i wneud hynny.

Gallwch hefyd gael cefnogaeth y Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Sir Gaerfyrddin sef Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS), sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol a gwirfoddolwyr yn y sir. I gael rhagor o wybodaeth am waith CAVS, ewch i [www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk)

## 2. Sir Gaerfyrddin yn ei chyd-destun

Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf ond dwy yng Nghymru, gydag arwynebedd o ryw 2,365 cilometr sgwâr, sef 11.5% o holl dir Cymru.

Mae Sir Gaerfyrddin yn llawn cyferbyniadau. Mae economi a thirwedd amaethyddol cefn gwlad Sir Gaerfyrddin ochr yn ochr ag ardal drefol a diwydiannol y de-ddwyrain. Yn y sir mae'r hen ddiwydiannau glo a dur a diwydiannau trwm eraill wedi gadael eu hôl ar yr amgylchedd ac yn awr mae'r sir yn datblygu'n economi fodern sy'n cynnwys peirianeg ysgafn, diwydiannau technolegol newydd a gwasanaeth, ynghyd â mentrau busnes eraill.

180,000 yw'r boblogaeth breswyl, ac amcangyfrifir mai 2.5% yw cyfradd twf poblogaeth y sir, sy'n fwy na chyfartaledd Cymru, sef 1.9%.

Mae **disgwyliad oes** yn y sir yn cynyddu, ac mae hyn yn destun dathlu. Mae pobl yn byw bywydau mwy iach ac mae triniaethau ac atal gwaeledd wedi gwella. Ym 1917, fe gyrhaeddodd 24 o bobl yn y DU 100 oed. Yn 2007, fe gyrhaeddodd 4,623 yr oed hwn. Amcangyfrifir y bydd 40,000 o bobl yn cyrraedd 100 oed erbyn 2031.

Mae **newid wedi bod yn y boblogaeth** hefyd, gyda phobl hŷn bellach yn cynrychioli cyfran fwy o'r boblogaeth. Disgwylir i'r duedd yma barhau at y dyfodol. Rhagamcanir y bydd poblogaeth 50+ Sir Gaerfyrddin yn cynyddu o 78,631 (2007) i 92,263 erbyn 2021 – cynnydd o ryw 14,000.

Bydd y newid yn y boblogaeth yn herio sefydliadau sector cyhoeddus i sicrhau bod eu gwasanaethau yn 'addas i bobl o bob oed' ac yn hygyrch i bawb.

O ran mudo rhwng Sir Gaerfyrddin a gweddill y Deyrnas Unedig, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn cyrraedd nag yn ymadael. Mae'r rhagamcanion hyn yn awgrymu mai gan Sir Gaerfyrddin y bydd y mewnlifiad net mwyaf o holl awdurdodau lleol Cymru. Fodd bynnag, ar lefel ryngwladol, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn ymadael nag sy'n cyrraedd.

Sir wledig yw Sir Gaerfyrddin gan mwyaf, ac mae dwysedd y boblogaeth yn isel, sef 71 o bobl i bob cilometr sgwâr, o'i gymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae natur wasgaredig y boblogaeth yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag yn ne a dwyrain y sir lle mae 65% o'r boblogaeth yn byw ar oddeutu 20% o'r arwynebedd tir. Mae prif drefi'r sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman ac oherwydd ei lleoliad daeryddol canolog, Caerfyrddin sydd fel arfer yn diwallu anghenion cefn gwlad y sir. Mae nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig sy'n hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau. Mae aneddiadau eraill llai heb wasanaethau a chyfleusterau, sy'n golygu bod anghenion trigolion yr ardaloedd hyn yn cael eu diwallu gan gystyrau o bentrefi.

Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd naturiol a diwylliannol cyfoethog, yn cynnwys safleoedd â dynodiadau rhyngwladol i ddiogelu nodweddion bioamrywiaeth pwysig, yn ogystal â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol unigryw. Gan Sir Gaerfyrddin hefyd mae'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef 83,302 yn ôl Cyfrifiad 2001. Roedd y ffigwr yma wedi codi i 85,100 yn 2009, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae 80% o'r siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol.

### 3. Faint o lwyddiant a gawsom hyd yma?

Cyhoeddwyd y Strategaeth Gymunedol gyntaf yn 2004 ac ers hynny cafwyd cynnydd sylweddol wrth adeiladu a chryfhau'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl Sir Gaerfyrddin. Mae nifer o'r datblygiadau hyn wedi'u cyflawni trwy drefniadau amlasiantaeth sy'n dangos bod gweithio mewn partneriaeth yn gryfach ac yn fwy aeddfed. Mae Sir Gaerfyrddin yn aml yn cael ei chynnig fel esiampl o arfer da gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sylfaen gadarn hon o weithio mewn partneriaeth wedi galluogi'r partneriaid i gyflawni prosiectau gwerth miliynau o bunnoedd drwy sicrhau ein bod wedi defnyddio grantiau ac unrhyw arian arall oedd ar gael yn y ffordd orau er mwyn gwella rhagolygon busnesau a chymunedau.

#### **Dyma rai o'r datblygiadau allweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf:**

- Datblygu canolfan siopa a hamdden Rhodfa'r Santes Catrin, yng Nghaerfyrddin, a gostiodd £74 miliwn ac a ddenodd fwy na 4 miliwn o ymwelwyr yn y chwe mis cyntaf.
- Agor Canolfan Gofal y Fron o'r math diweddaraf a gostiodd £7 miliwn yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli, i Fwrdd Iechyd Hywel Dda.
- Ennill un o Wobrau Hyfforddiant Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar gyfer Cynllun Cadetiaid Sir Gaerfyrddin, y cyntaf o'i fath yn y DU, cynllun prentisiaeth arloesol ar y cyd rhwng Cyngor Sir Gaerfyrddin, Coleg Sir Gâr a'r Construction Training Association Ltd (CCTAL).
- Sefydlu cyllid i greu canolfan cydgysylltu strategol ym mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin i ddelio ag unrhyw argyfwng sifil.
- Sefydlu cydweithredu ym maes addysg uwch rhwng dau gyn ddarparwr i ffurfio sefydliad newydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, am bris o £14.3 miliwn.
- Datblygu gweithdrefnau sgrinio ac atgyfeirio cadarn i'r Gwasanaeth Diod a Chyffuriau i bobl dan 18 oed (SUDDS).
- Cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin, sydd wedi arwain at welliannau arwyddocaol i iechyd. Adroddodd 67% o denantiaid sy'n byw mewn cartrefi wedi'u cwblhau nad oeddent yn dioddef o heintiau resbiradol o gymharu â 52% mewn cartrefi heb eu gwella.
- Buddsoddi £91.5 miliwn hyd yn hyn, wrth ddarparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn llwyddiannus.
- Mae Asiantaeth Ynni Sir Gâr a Menter Cwm Gwendraeth wedi gweithredu prosiect Cymunedau di-garbon a gyllidir gan Ewrop i osod paneli ffotofoltaidd solar ar doeau 13 o neuaddau cymunedol yn y sir.
- Mae Canolfan Hamdden Caerfyrddin wedi cael gwelliannau gwerth £9.5 miliwn, yn cynnwys ailddatblygu'r neuaddau chwaraeon a chyfleusterau'r gampfa yn ogystal â'r pwll nofio 25 metr gydag 8 lôn.
- Sefydlu siop newydd dan yr unto i'r sector gwirfoddol yn Y Mwnt, gan adfywio hen adeilad. Menter ar y cyd oedd hon rhwng sefydliadau partner, a chostiodd £1.9 miliwn.
- Agor canolfan achosion brys ac MRI o'r math diweddaraf, a gostiodd £7 miliwn, yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru.
- Agor y trac rasio ceffylau newydd cyntaf ar laswellt amlbwrpas yn y Deyrnas Unedig ers 81 o flynyddoedd yn Ffos Las. Creodd hyn 15 swydd amser llawn yn dilyn datblygiad gwerth miliynau o bunnoedd gan y sector preifat, a gefnogwyd gan y Cyngor.
- Bwcabws yw'r gwasanaeth bws lleol, arloesol, cwbl hygyrch sy'n ymateb i'r galw ac sy'n gweithredu yn Nyffryn Teifi ers Awst 2009. Gwasanaeth ydyw sy'n cael ei ddarparu yn ôl anghenion y teithwyr mewn pentrefi gwledig, gan eu cludo i drefi, pentrefi neu ganolfannau ar hyd taith y gwasanaeth bws 460 o Gaerfyrddin i Aberteifi. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gydnabod am fod yn arloesol, ac wedi ennill dwy wobwrtrafnidiaeth genedlaethol yn 2010.



- Agor safle blaenllaw newydd o'r math diweddaraf i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth yn dilyn buddsoddi £28.5 miliwn. Mae 1,600 o ddisgyblion yn mynd i'r ysgol, sy'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer anghenion addysgol arbennig.
- Derbyn 1,217 yn llai o bobl i ysbytai bob blwyddyn trwy roi gofal nyrsio aciwt i gleifion yn eu cartrefi eu hunain.
- Agor Stadiwm Parc y Scarlets, sydd â digon o le i 15,000 o bobl, yn dilyn buddsoddiad o £23 miliwn. Mae hyn wedi arwain at hwb mawr i'r economi leol ac at greu mwy na 200 o swyddi.
- Ers Ebrill 2008, mae'r prosiect Trefi Taclus, mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus, wedi gweithio gyda 63 o grwpiau cymunedol a 5700 o wirfoddolwyr sydd wedi cyfrannu dros 23,000 o oriau at brosiectau amgylcheddol cymunedol megis cymhennu a gerddi cymunedol.
- Dyfarnu £250,000 i Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Benfro a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro i ddatblygu isadeiledd chwarae ar draws y ddwy sir, yn ogystal â £999,328 i ddarparu cyfleoedd chwarae symudol i blant yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Cyflogwyd tîm cymunedol teithiol o swyddogion chwarae a byddant yn cydweithio â Gweithiwr Adnoddau Cymunedol a Chydgylltydd Prosiect i ddarparu cyfleoedd chwarae mewn 6 cymuned yn Sir Gaerfyrddin.
- Dyfarnu'r lle cyntaf i Dîm amlasiantaeth Iechyd Ieuencid Sir Gaerfyrddin yn y "Best of Health Awards" yn y Categori Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, i gydnabod ei waith yn hybu cynnwys pobl ifanc a sicrhau eu cyfranogiad.
- Agor Parc Adwerthu Pemberton yn Llanelli yn dilyn buddsoddiad o £75 miliwn. Crëwyd tua 700 o swyddi adwerthu i'r dref.
- Lansio cydwasanaeth offer rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Hywel Dda – mae Gwasanaeth Integredig Offer Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn cyfuno cyfarpar iechyd a chyfarpar gofal cymdeithasol, gan ganiatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau fod yn annibynnol a chael gofal a thriniaeth yn eu cartrefi.
- Lansio prosiect gwerth £2 filiwn gyda Cheredigion a Sir Benfro i gyflwyno dulliau newydd o ymdrin â materion yn ymwneud â busnes, ysgogi creadigrwydd ac arloesedd a denu busnesau bach.
- Partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, iechyd a'r sector gwirfoddol, a arweiniodd at ddatblygu Gwasanaeth Gofal Parhaus i Blant sy'n cynnig mwy o gymorth i blant ag anghenion cymhleth ac yn hybu gofal yn y gymuned.
- Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a chynnal Cynhadledd Ieuencid Flynyddol lle maent yn gosod yr agenda, yn gwahodd pobl i'w mynychu ac yn trefnu gweithdai.
- Cyflwyno'r prosiect Ymgysylltu ar draws de-orllewin Cymru i leihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Agor canolfan gwasanaeth cyffuriau amlasiantaeth yn Llanelli, y gyntaf o'i bath yn Nyfed Powys.

## 4. Cynnydd a heriau yn y dyfodol

Mae'r datblygiadau allweddol a ddisgrifir yn y tudalennau blaenorol yn cynnig syniad o'r cynnydd a wnaed o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau yn Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd nifer o fesuriadau sy'n dangos sut rydym yn gwella ansawdd bywyd pobl Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i'r datblygiadau hyn a'r gwasanaethau eraill a ddarperir yn y sir. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai o'r meysydd lle rydym wedi gweld cynnydd a meysydd eraill sy'n dal i gynnig her sylweddol i ni yn y sir.

### Poblogaeth

- Yn 2009 amcangyfrifwyd mai 180,767 oedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin, cynnydd o 7925 ers 2001. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru.
- Mae poblogaeth y sir yn heneiddio'n barhaus ac mae 37,139 o bobl dros 65 oed.
- Mae cyfran fwy o bobl wedi ymddeol yn Sir Gaerfyrddin - 24.4% o'i chymharu â ffigur Cymru gyfan, sef 21.7%. Mae 2 o bob 5 o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn 50 oed neu'n hŷn.
- Yn 2009, cofnodwyd mwy o farwolaethau na genedigaethau – 2,099 o farwolaethau o'u cymharu â 1,877 o enedigaethau. 6.8% yn unig o'r genedigaethau oedd gan famau yn iau nac 20 oed, sy'n dangos y ffaith fod gan Sir Gaerfyrddin y 4ydd cyfradd isaf o ran beichiogrwydd yn yr ardegau.
- O fewn De Orllewin Cymru, mae Sir Gaerfyrddin yn dangos y cynnydd net mwyaf o ran mewnlifiad rhwng y sir a Lloegr. 700 o bobl yn unig yn fwy sy'n symud i'r sir nac sy'n gadael.

### Iechyd

- Mae 30% o'r oedolion yn Sir Gaerfyrddin yn dweud bod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor.
- Mae 60% o'r oedolion yn Sir Gaerfyrddin yn dweud eu bod yn rhy drwm neu'n ordew, ffigur sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 57%. Mae 21% o'r oedolion yn dweud eu bod yn ordew, sydd yr un peth â chyfartaledd Cymru.
- Ar hyn o bryd mae gan 8,500 o bobl ddiabetes y gellir ei gysylltu â gordewdra.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl fydd yn dioddef o ddiabetes yn Sir Gaerfyrddin yn dyblu ymhen 20 mlynedd – o 4% o'r boblogaeth i 8%.
- Mae 70% o'r oedolion yn Sir Gaerfyrddin heb fod yn ddigon egniol i fod o les i'w hiechyd.
- Mae cyfraddau ysmegu ymysg oedolion wedi lleihau o 24.4% i 21.8%.
- Mae canran y plant sy'n cael y brechlyn MMR cyntaf yn 2 oed wedi codi o 80.8% yn 2004 i 84.4% yn 2009 ond mae'n dal yn is na chyfartaledd Cymru, sef 88.1%.

## Cyflogaeth

- Mae cyfraddau cyflogaeth wedi aros yr un peth yn fras ers 2004 ond maent yn is na chyfartaledd Cymru. Mae incwm crynswth sydd gan aelwydydd i'w wario y pen ar y lefel isranbarthol wedi codi, ac mae'r bwch rhyngddo a ffigur cyfartalog Cymru wedi lleihau; hefyd mae'r enillion wythnosol gros cyfartalog yn ôl gweithle wedi gwella'n sylweddol, gan godi ffigur Sir Gaerfyrddin i ychydig o dan gyfartaledd Cymru.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi codi 6.8%, ychydig yn llai na chynnydd Cymru gyfan, sef 8.0%.
- Mae lefelau diweithdra yn y flwyddyn hyd fis Mawrth 2011 wedi gostwng 4.1%, sy'n llai na'r newid yng Nghymru gyfan, sef 6.5%. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau mawr oherwydd y toriadau arfaethedig yn y sector cyhoeddus.
- Pobl ifanc o dan 25 oed yw rhyw draean o'r holl bobl sy'n ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn y sir.
- Mae cyfraddau llythrennedd a rhifedd yn y sir yn cymharu'n anffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mae dros 26% o oedolion oed gwaith yn anweithredol yn economaidd (yn methu gweithio am resymau iechyd a rhesymau eraill).

## Addysg

- Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a lwyddodd i sicrhau gradd A\* i C mewn 5 neu ragor o arholiadau TGAU, neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth. Llwyddodd 64% i gyrraedd y lefel hon yn 2010.
- Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod yn yr haf blaenorol a gafodd raddau AS A\* i E neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth (yn 2010 cyrhaeddodd 97.7%).
- Bu lleihad yng nghanran y bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; 4.4% oedd y ganran yn 2008, 4.0% yn 2009 ac roedd yn 2.9% yn 2010.
- Canran yr holl ddisgyblion mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, oedd yn 15 oed ar 31 Awst y flwyddyn flaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy oedd 0.9% yn 2009 a 0.46% yn 2010.
- Mae gennym well cyrhaeddiad addysgol ymhlith ein plant sy'n derbyn gofal.

## Yr Iaith Gymraeg

- Mae gan Sir Gaerfyrddin dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a'i hunaniaeth ei hun sy'n gosod y sir ar wahân. Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae wedi datblygu ei Strategaeth Gymraeg ei hun mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r iaith.
- Cofnodwyd yng Nghyfrifiad 2001 bod 83,802 (50.1%) o'r bobl dros 3 blwydd oed yn Sir Gaerfyrddin yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn dangos lleihad yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg ers cyfrifiad 1991, pan oedd 54.8% o drigolion y sir yn siarad Cymraeg.
- Fodd bynnag, gan Sir Gaerfyrddin roedd y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o hyd yn 2001. Hefyd yng nghanlyniadau 2001, gwelwyd bod mwy o bobl ifanc yn gallu siarad Cymraeg, a bod cynnydd wedi bod yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran 5-9 a 10-14 oed.
- Mae gan dros 71.72% o'r grŵp oedran 5-15 a 66.78% o'r grŵp oedran 16-19 o leiaf un sgil yn yr iaith Gymraeg.

## Tlodi

- £29,525 oedd incwm cyfartalog (cymedrig) cartrefi Sir Gaerfyrddin yn 2009, a £25,255 oedd yr incwm canolrifol. Roedd incwm cyfartalog cartrefi 5.6% yn is nag incwm cyfartalog cartrefi yng Nghymru gyfan, sef £31,346, ac roedd yn isaf ond 5 ymhlith holl Awdurdodau Unedol Cymru.
- Ychydig dros 42% o gartrefi'r sir sydd yn y band incwm £20,000 i £25,000 ac felly ag incwm sy'n is na chyfartaledd Sir Gaerfyrddin, sef £29,525. Mae clystyrau o wardiau sydd yn y band incwm hwn yn ardaloedd Aman/Llanelli/Gwendraeth, gorllewin Sir Gaerfyrddin, a'r wardiau mwyaf gogleddol yn y sir sy'n ffurfio rhimyn rhwng Cearnth a Llanybydder, ac yn Llanymddyfri.
- Mae Sir Gaerfyrddin wedi gweinyddu gwerth £52 miliwn o fudd-daliadau tai ar gyfer 2009/2010 – mae hyn £4 miliwn yn fwy nag a wariwyd yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae rhannau mawr o'r sir mewn tlodi tanwydd, gan mwyaf mewn cilfachau yn Llanelli a'r cylch a Chaerfyrddin, a hefyd ar draws rhan ogleddol wledig y sir.
- Bu Prosiect Dyledion a Chyngor mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Llanelli yn ymdrin â dyledion o ryw £1.38 miliwn yn ystod y flwyddyn.
- Roedd 7,800 o blant yn byw mewn cartrefi di-waith yn 2008. Mae'r plant hyn fwy na phedair gwaith yn debycach o fod ag anhwylder meddyliol na phlant o deuluoedd proffesiynol.

## Ôl Troed Ecologol

- Mae'r Ôl Troed Ecologol yn mesur faint o adnoddau yr ydym yn eu defnyddio o'u cymharu â'r hyn sydd ar gael yn y byd, ac yn ffordd o amcangyfrif a ydym yn byw o fewn terfynau amgylcheddol y ddaear.
- 4.4hab (hectar byd-eang) y pen yw ôl troed ecologol cyfartalog pobl yng Nghymru a Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn golygu bod pob dyn, menyw a phlentyn yn defnyddio arwynebedd sy'n cyfateb i fwy na 4 maes rygbi (bob blwyddyn) i gynhyrchu'r adnoddau y maent yn eu defnyddio.
- Dim ond 1.88hab y pen (sy'n cyfateb i bron 2 faes rygbi) yw ein "cyfran deg o'r ddaear", felly mae ôl troed o 4.4hab y pen yn golygu bod angen mwy na dwy blaned arnom i gynnal ein ffordd bresennol o fyw.
- Yr elfennau yn ôl troed ecologol Sir Gaerfyrddin sy'n galw am y defnydd mwyaf o adnoddau naturiol yw ein cartrefi (21%), trafndiaeth (21%), bwyd a diod (27%), a'r pethau yr ydym yn eu prynu (dillad a theclynnau 12%).

## Bioamrywiaeth

- Yn yr un modd â gweddill Cymru, methodd Sir Gaerfyrddin â chyrraedd y targedau cenedlaethol o ran atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010. Dylasai safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yng Nghymru fod mewn cyflwr ffafriol i gynnal y rhywogaethau a'r cynefinoedd a nodwyd ynddynt, gyda 95% o safleoedd rhyngwladol mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010.
- Er hyn, mae cynnydd mewn ymwybyddiaeth ynghylch gwerth ein hamgylchedd naturiol i'n heconomi, ein hiechyd a'n lles, ein diwylliant a'n hymdeimlad o le. Yn ogystal, mae gwirfoddoli amgylcheddol ar gynnydd yn y sir.
- Mae Rheoli Datblygu a chynllunio defnydd tir yn gynyddol yn rhoi sylw i'r effeithiau ar fioamrywiaeth fel ystyriaeth allweddol bwysig, a bellach mae gennym gynllunydd ecolegol sy'n cyfranogi yn y broses gynllunio.
- Fel gweddill Cymru, mae gennym bellach Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol sy'n gweithredu'n llawn - sy'n golygu y gallwn barhau i wella safon ein data am rywogaethau a chynefinoedd Sir Gaerfyrddin.
- Mae gwirfoddoli amgylcheddol wedi cyfrannu at brosiectau pwysig er mwyn helpu i gadw rhai o'n rhywogaethau mwyaf prin a'n cynefinoedd mwyaf arwyddocaol. Mae gwaith gwirfoddolwyr drwy Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, Cadwraeth Gloynnod Byw a Cadwch Gymru'n Daclus wedi chwarae rôl bwysig wrth wireddu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
- Ymgorfforwyd nodweddion yng nghynlluniau heolydd ac atgyweirio ceuffosydd y Cyngor fel bod dyfrgwn yn medru mynd o dan heolydd yn ddiogel.

## Newid yn yr Hinsawdd a diogelu ynni

- Bydd y galw am ynni ledled y byd yn cynyddu eto dros y degawd nesaf a bydd cael gafael ar ynni sy'n dod o ffynhonnell ddibynadwy yn ogystal â'i gludo a'i storio'n ddiogel yn dalcen caled i Brydain. Disgwylir i'r galw byd-eang am ynni fod 53% yn uwch yn 2030 nag ydoedd yn 2004, yn sgil twf aruthrol yn economi a phoblogaeth y gwledydd datblygol.
- Ym Mhrydain, wrth i adnoddau ynni'r wlad edwino, bydd y ddibyniaeth ar fewnforio tanwydd yn cynyddu i ddiwallu'r galw am ynni. Mae'r peryglon sydd ynghlwm wrth ddibyniaeth o'r fath yn cynnwys prisiau ynni uwch a mwy ansefydlog, perygl amharu ar gyflenwadau ynni yn y dyfodol, costau ymateb i effeithiau allyriadau parhaus ledled y byd a gwrthwynebiadau lleol i'r isadeiledd ynni.
- Mae'r galw am gludiant yn debygol o barhau i godi, fel y mae symudedd personol.
- Rhagdybir y bydd brig olew (pan fydd cynhyrchu petroliwm ar ei uchafbwynt, gyda llai'n cael ei gynhyrchu wedyn nes iddo ddiflannu) yn digwydd yn ystod y degawd nesaf er gwaethaf buddsoddiadau sylweddol mewn dulliau amgen.
- Mae diogelu'r cyflenwad ynni ynghyd â thueddiadau lleihau carbon yn her aruthrol i awdurdodau lleol a chymunedau – bydd angen ailystyried yn llwyr sut rydym yn defnyddio a chynhyrchu ynni. Mae hyn yn gysylltiedig â phob agwedd ar fywyd pob dydd.
- Mae newid yn yr hinsawdd yn her enfawr i bawb - fe allai newidiadau at y dyfodol gynnwys tymreddau uwch, lefelau'r môr yn codi ac eithafion tywydd megis tonnau gwres, stormydd a thymhestloedd, ymchwydd yn y llanw a glawogydd.

*Ffynhonnell: Netherwood (2008) Tueddiadau'r Dyfodol a Chwilio'r Gorwel ar gyfer Byd Llywodraeth Leol yng Nghymru (WLGA)*

*<http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/datblygu-cynladwy/tueddiadaur-dyfodol-a-chwilio-r-gorwel-ar-gyferbyd-llywodraeth-leol-yng-nghymru/>*

## Trosedd ac Anhrefn

- Mae cyfanswm ffigurau troseddau wedi lleihau'n sylweddol o 71.42% y fil o'r boblogaeth yn 2004 i 50.3% yn 2009, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 79.4%.

## Democratiaeth a Llywodraethu

- Mae cynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau: aeth 70% o bobl i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol 2010, 68% yn Etholiad Cyffredinol 2005 a 67% yn Etholiad Cyffredinol 2001.
- 50% oedd canran gyfartalog y bobl a bleidleisiodd yn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2008 o gymharu â chanran Cymru, sef 44%.
- Trefnodd yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Uned Gwasanaethau Etholiadol ymweliadau ag ysgolion cynradd i ddarparu sesiynau am ddemocratiaeth leol. Nod y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth plant o ddemocratiaeth ac effaith etholiadau, a hybu dinasyddiaeth weithgar. Nod hirdymor y prosiect yw cynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau.

Mae'r heriau a nodir uchod, ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori, wedi cael eu defnyddio i nodi ein gweledigaeth a chanlyniadau hirdymor. Ar y tudalennau nesaf fe gewch wybodaeth a gasglwyd oddi wrth y sefydliadau sy'n aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin a'r partneriaethau strategol unigol. Dengys y rhain sut yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau hyn yn ystod y pum mlynedd nesaf.

## 5. Canlyniadau a nodau

### Er mwyn gwireddu'r weledigaeth strategol drosfwaol sef:

Galluogi pobl i fyw bywyd iach a chyflawn trwy gydweithio i greu cymunedau cadarn, dwyieithog a chynaliadwy byddwn yn gweithio tuag at gyflawni'r canlyniadau a'r nodau canlynol.

### 1. Canlyniad:

#### Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Mae ein ffordd o fyw yn newid. Mae pobl yn byw yn hwy, mae ein safon byw yn uwch ond mae ein hanghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth. Erbyn hyn, mae angen gofal a chefnogaeth yn nes at eu cartrefi ar lawer o bobl.

Y sialens sydd yn ein hwynebu nawr yw atal afiechyd yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid i ni gyd gymryd cyfrifoldeb am ein hiechyd a chymryd camau bach tuag at wella ein lles a'n ffordd o fyw. O'n cartrefi i fwyta'n iach. O ymarfer corff i imiwneiddio.

Gall nifer o ffactorau gael effaith ar ein hiechyd a'n lles, o addysg a chyflogaeth i dai. Yn wir, mae astudiaeth effaith ar iechyd Safon Tai Sir Gaerfyrddin wedi amlygu y gall problemau cyffredin y cawn wybod amdanynt mewn tai gael effaith sylweddol ar iechyd tenantiaid. Dangosodd cynllun peilot berthynas glir rhwng gwella cartrefi a gwella iechyd. Bydd rhaglen waith Safon Tai Sir Gaerfyrddin nawr yn parhau, gydag astudiaeth hwy yn olrhain ei hynt, er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles trwy wella tai.

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cyhoeddi 10 addewid ar gyfer 10 mlynedd sy'n anelu at wella iechyd a lles pobl yr ardal. Bydd y 10 addewid yn greiddiol i waith y Bwrdd am y 10 mlynedd nesaf ac yn allweddol i wireddu'r Strategaeth Gymunedol Integredig hon.

Mae datblygiadau newydd ym maes iechyd, ac mae gennym ni oll ran i'w chwarae. Bydd y nodau a'r is-nodau isod yn arwain ein gwaith ac yn cynnig ambell syniad i chi er mwyn gwella eich iechyd a lles personol.

#### Nodau:

##### 1.1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd:

##### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy dargedu cymorth i fenywod beichiog a mamau newydd.
- Trwy dargedu rhaglenni rhianta a chymorth i deuluoedd i roi i rieni/gofalwyr y sgiliau, y wybodaeth a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i'w cynorthwyo wrth fagu plant.
- Trwy fynd i'r afael ag achosion tlodi plant trwy gydweithio ar draws partneriaethau a grwpiau cynllunio.
- Trwy sicrhau bod pob plentyn yn llythrennog yn gorfforol (wedi dysgu sgiliau craidd megis rhedeg, cydbwyso, taflu a dal) erbyn cyrraedd 7 oed.
- Trwy sicrhau bod pob person ifanc yn cyflawni 60 munud o weithgarwch corfforol cymharol ddwys bum gwaith yr wythnos.
- Trwy gyflenwi rhaglen datblygiad iechyd plant a nyrsys ysgol i bawb.
- Trwy gyflwyno systemau adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar.
- Trwy weithio gyda sefydliadau i hyrwyddo negeseuon am fanteision dwyieithrwydd yn y blynyddoedd cynnar.
- Trwy sicrhau fod pob plentyn a rhiant yn ymwybodol o wasanaethau a rhaglenni sydd ar gael i wella a chynnal eu hiechyd.

## **1.2 Atal afiechyd ac annog ffordd iach a gweithgar o fyw**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy alluogi pawb i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â byw bywydau iach a chyflawn.
- Trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, lleihau salwch a marwolaethau sy'n cael eu hachosi gan dlodi tanwydd.
- Trwy weithio ar draws pob sector er mwyn lleihau lefelau gordewdra yn y boblogaeth gyfan.
- Trwy wella mynediad cynhwysol i gyfleoedd gwirfoddoli, cyflogaeth, hamdden a chwarae.
- Trwy annog pobl i wella eu hiechyd maethol.
- Trwy hyrwyddo byw'n iach fel rhan o'r cynllun ysgolion iach ar draws pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin.
- Trwy weithio tuag at sicrhau bod pob oedolyn yn cyflawni 30 munud o weithgarwch corfforol cymharol ddwys ar 5 neu fwy o ddyddiau'r wythnos.
- Trwy hybu cerdded a beicio fel ffordd arall o deithio a hybu defnyddio mannau gwyrdd.
- Trwy alluogi cyflogwyr i gynnal iechyd a lles eu gweithlu trwy fentrau iechyd yn y gweithle.
- Trwy hybu'r nifer sy'n derbyn brechiadau a gwrth-heintiau i leihau clefydau y gellir eu hatal
- Trwy ddarparu gwasanaethau, addysg a hybu iechyd sy'n galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u hiechyd.
- Trwy atal salwch oherwydd glendid bwyd amhriodol.
- Trwy sefydlu Ardaloedd Ansawdd Aer ar draws y sir, lle bo'n briodol, er mwyn pennu buddion iechyd aer glân i drigolion yr ardal.

## **1.3 Gwella iechyd a lles emosiynol a meddyliol pawb yn y sir**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddarparu ystod eang o wasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol yn y ddwy iaith yn y gymuned.
- Trwy godi lefelau hunan-barch a gwydnwch plant, pobl ifanc ac oedolion.
- Trwy leihau'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â salwch meddwl.
- Trwy weithio mewn partneriaeth â'r holl sefydliadau i ganfod a mynd i'r afael â materion sy'n benodol i straen a lles yng nghefn gwlad.
- Trwy weithio mewn partneriaeth i roi ar waith gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i ddarparu gwell cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion yn ymwneud â lles emosiynol ac iechyd meddwl.
- Trwy wella cyfleoedd chwarae ac yn benodol gyfleoedd chwarae i blant anabl.
- Trwy gynyddu sgiliau a gwybodaeth staff rheng flaen i hyrwyddo iechyd emosiynol a meddyliol positif.
- Trwy ymdrin ag effeithiau hunanladdiad a hunan-niweidio a gweithio gyda'r cyfryngau i sicrhau bod adroddiadau ar iechyd meddwl a hunanladdiad yn sensitif.



## **1.4 Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy gyflenwi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu i blant a rhieni y mae angen cymorth arnynt.
- Trwy leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd gan sicrhau bod asesiadau iechyd yn cael eu cynnal o fewn y flwyddyn i blant sy'n derbyn gofal a bod plant sy'n cael eu derbyn i ofal yn cael eu cofrestru gyda darparwr gwasanaethau iechyd.
- Trwy alluogi mynediad cyffredinol i wybodaeth, cefnogaeth a chyingor priodol ac amserol.
- Trwy wella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a lles i bobl y mae tlodi, anabledd neu'r ffaith eu bod yn byw yng nghefn gwlad yn effeithio arnynt yn anghymesur.
- Trwy weithio gyda'r holl asiantaethau i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb ac i ganfod a mynd i'r afael â 'bylchau' mewn gwasanaethau (daearyddol neu fel arall).
- Trwy wella'r gallu i gael gwybodaeth a defnyddio technolegau er mwyn hybu annibyniaeth.
- Trwy gefnogi a datblygu'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.

## **1.5 Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth amserol a chywir ym maes tai, yn cynnwys cyngor ariannol a rheoli dyled.
- Trwy wella cyflwr cartrefi a lleihau digartrefedd.
- Trwy roi cyngor i bobl ar effeithlonrwydd ynni a helpu pobl i wella eu cartrefi, gan leihau tlodi tanwydd, allyriadau CO2 a marwolaethau a salwch sy'n cael eu hachosi gan gartrefi oer a drafftio.
- Trwy gynnig cymorth ymarferol i wella cyflwr tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, megis benthyciadau, gan weithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio.
- Trwy gyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn stoc tai'r Cyngor.
- Trwy gynorthwyo pobl i gael cartrefi o ansawdd da ar rent trwy ein Hasiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol a'r gronfa atal digartrefedd.
- Trwy gynorthwyo â datblygu amrywiaeth mawr o ddewisiadau ar gyfer byw'n annibynnol a gyda chefnogaeth i'r holl grwpiau yn y boblogaeth.

## **1.6 Gwella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau bregus**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy wella darpariaeth, ansawdd, integreiddio a chynaliadwyedd gwasanaethau sy'n gorgyffwrdd, hynny yw, gwasanaethau a ddarperir gan y GIG, llywodraeth leol a'u partneriaid i rai grwpiau penodedig:
  - o pobl hŷn fregus eu hiechyd,
  - o pobl â chyflyrau hirdymor
  - o pobl â phroblemau iechyd meddwl
  - o pobl ag anableddau dysgu
  - o pobl ag anableddau corfforol a namau synhwyrdd
  - o pobl â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau
  - o gofalwyr, yn enwedig gofalwyr ifanc.
- Trwy ymateb i anghenion sipsiwn, teithwyr a grwpiau lleiafrifoedd ethnig o ran iechyd a gofal cymdeithasol.
- Trwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi mewn modd sy'n diwallu anghenion ieithyddol y defnyddiwr gwasanaeth.
- Trwy ymgysylltu â'r sector annibynnol (y sector preifat a'r trydydd sector) wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- Trwy dargedu cefnogaeth i deuluoedd mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol is.

## **1.7 Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy godi'r oed y mae pobl ifanc yn dweud eu bod yn defnyddio alcohol a sigarêts am y tro cyntaf.
- Trwy ddarparu ymyrraeth wedi ei thargedu, ymyriadau cynnar a thriniaeth effeithiol i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd er mwyn lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol gymaint ag sy'n bosibl.
- Trwy alluogi pobl ifanc i fod yn fwy ymwybodol o beryglon defnyddio cyffuriau, alcohol a sigarêts.
- Trwy amddiffyn teuluoedd a chymunedau rhag ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol a pheryglon i iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.
- Trwy ddatblygu rôl y Grŵp Lleihau Niwed ymhellach yn y sir gyda phwyslais arbennig ar firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed, Naloxone, defnyddio steroidau'n ddiogel a chyfnwid nodwyddau.
- Trwy gyfyngu ar allu pobl ifanc i gael gafael ar alcohol a thybaco.
- Trwy sicrhau mynediad i wybodaeth am wasanaethau cefnogi i bobl yn dilyn eu harestio neu eu rhyddhau o'r ddalfa.

## Beth gallwch chi ei wneud?

- Cymryd cyfrifoldeb dros eich iechyd chi ac iechyd eich teulu - **ymrwymo i ymarfer corff yn rheolaidd ac i fwyta'n iach** - [www.heriechysirgar.org.uk](http://www.heriechysirgar.org.uk)
- Edrych ar Gyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth Galw Iechyd Cymru yn [www.nhsdirect.wales.nhs.uk/Default.aspx?locale=cyf](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/Default.aspx?locale=cyf) i gael mwy o **wybodaeth am grwpiau a sefydliadau lleol** sy'n cynnig cymorth a chynghor
- Dysgu mwy am **wasanaethau iechyd lleol** a rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned ar [www.communityhealthcouncils.org.uk](http://www.communityhealthcouncils.org.uk)
- Sicrhau eich bod yn derbyn brechiad ffliw a brechiadau priodol eraill – cysylltwch â'ch **meddyg teulu** am wybodaeth bellach
- Adnabod eich **tîm plismona cymdogaeth** – cewch hyd i'r manylion ar [www.dyfed-powys.police.uk/cy/neighbourhoodpolicing/](http://www.dyfed-powys.police.uk/cy/neighbourhoodpolicing/)
- Prynu **cynnyrch lleol** – [www.sirgar.gov.uk/bwyddadiod](http://www.sirgar.gov.uk/bwyddadiod)
- Gwneud yn siŵr eich bod chi'n hawlio popeth sydd ar gael i chi – holwch am **eich hawl i fudd-daliadau cynghor a thai** trwy ffonio 01267 234567
- Dysgu mwy am y **gwasanaethau hamdden** lleol – cysylltwch â'r Cynghor ar 01267 234567 neu ewch i [www.sirgar.gov.uk/hamdden](http://www.sirgar.gov.uk/hamdden)
- Os oes gennych ymholiadau ynglŷn ag **iechyd**, cysylltu â Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar 01437 771220 neu ewch i [www.hywelddalhb.wales.nhs.uk](http://www.hywelddalhb.wales.nhs.uk)
- Darllen rhagor am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar **Hawliau'r Plentyn** drwy fynd i [www.unicef.org.uk](http://www.unicef.org.uk)
- Mynd i [www.food.gov.uk/ratings](http://www.food.gov.uk/ratings) i weld **safonau glendid busnesau bwyd lleol**
- Cael rhagor o wybodaeth am **ddigwyddiadau iechyd** yn [www.heriechysirgar.org.uk](http://www.heriechysirgar.org.uk)
- Cael rhagor o wybodaeth am **gynghor i ddefnyddwyr** drwy'r darllediad Safonau Masnach ar [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

### Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn:

- Disgwyliad oes
- Canran yr ysmygwyr
- Nifer yr achosion o ordewdra
- Canran y boblogaeth sy'n gorfforol egniïol
- Cyfradd marwolaethau
- Cyfradd marwolaethau babanod
- Canran y babanod pwysau geni isel
- Nifer y rhai sy'n cael brechiadau (plentyndod a ffliw)
- Cyfradd marwolaethau drwy hunan-laddiad
- Lefel digartrefedd
- Tai sy'n iach ac yn ddiogel.

## 2. Canlyniad:

### Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Rydym i gyd eisiau i blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan gael y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a llawn.

Rydym eisiau gwella'r canlyniadau i bawb drwy ddysgu gydol oes, gan gael yr effaith fwyaf lle mae'r canlyniadau gwaethaf ar hyn o bryd.

Mae pwysau ar adnoddau bob amser yn fater allweddol a rhaid i ni ymdrechu i wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael i ni yn hytrach na chodi disgwyliadau na ellir eu cyflawni. Fwyfwy bydd angen edrych ar adnoddau ar y cyd, rhwng partneriaid, er mwyn sicrhau ein bod yn eu defnyddio lle mae eu hangen fwyaf.

Mae'n rhaid i ni fod yn barod i ymateb i newidiadau, i ddyletswyddau statudol newydd ac i ddatblygiadau priodol eraill megis gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Byddwn ni'n defnyddio amryw dulliau gan gynnwys y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, er mwyn adrodd ar gynnydd.

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio ar draws sefydliadau, i ddarparu'r gwasanaethau gorau er mwyn sicrhau fod pawb yn cyflawni eu potensial o ran dysgu. Byddwn yn rhoi plant a phobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn, gan eu cynnwys fwyfwy mewn cynllunio a datblygu gwasanaethau, a chan einherio ein hunain gydag ymagweddau arloesol.

Mae datblygiadau newydd ym maes dysgu ac mae gennym oll ran i'w chwarae. Bydd y nodau a'r is-nodau isod yn arwain ein gwaith ac yn cynnig ambell syniad i chi er mwyn cyflawni eich potensial o ran dysgu.

#### Nodau:

#### 2.1 Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb

##### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy wella sgiliau dysgwyr o bob oed ym meysydd llythrennedd, rhifedd, TG, dwyieithrwydd a chyfathrebu.
- Trwy sicrhau bod y modd yr asesir dysgwyr yn gyson ac yn drylwyr.
- Trwy ddatblygu arweinwyr ysgolion sydd â'r sgiliau i weithio'n gydweithredol.
- Trwy fuddsoddi yn y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif.
- Trwy godi lefel dyheadau pob plentyn, ac yn benodol plant sy'n derbyn gofal.
- Trwy gyflenwi cwricwlwm amrywiol, sy'n cynnwys opsiynau galwedigaethol.
- Trwy feithrin pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ddod yn arweinwyr cymunedol.
- Trwy ddarparu addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion.

## **2.2 Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy sicrhau y gall pobl ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu.
- Trwy dargedu cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gael achrediad/cymhwyster wedi'i achredu.
- Trwy sicrhau bod y Llwybrau Dysgu 14-19 yn bodloni'r gofynion o ran dewis opsiynau.
- Trwy ddatblygu gofal plant er mwyn llenwi'r bylchau a nodwyd yn ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant (h.y. llefydd gofal dydd llawn a gofal yn ystod y gwyliau) er mwyn ymateb i anghenion rhieni a gofalmwr sy'n gweithio / dilyn hyfforddiant.
- Trwy hybu gwirfoddoli fel ffordd o ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a chefnogi gwirfoddolwyr.
- Trwy weithio gyda chyflogwyr, colegau ac ysgolion lleol i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes.
- Trwy hybu cyflogaeth yn yr ardal sy'n cefnogi sgiliau, technolegau a menter garbon isel.
- Trwy sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg amgen neu addysg yn y cartref, o ganlyniad i salwch neu wahardd, yn cael eu cynghori am lwybrau dysgu a chyfleoedd hyfforddi a datblygu ôl-16.
- Trwy weithio mewn partneriaeth i ddarparu prentisiaethau fel rhan o gyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin.
- Trwy hyrwyddo manteision dwyieithrwydd fel sgil yn y gweithle.

## **2.3 Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddatblygu Strategaeth Integredig ar gyfer Cymorth i Deuluoedd a fydd yn sicrhau ystod o gefnogaeth/rhaglenni ymyrraeth gynnar i deuluoedd er mwyn sicrhau bod plant yn cyrraedd eu potensial llawn o ran dysgu, a'u bod yn barod i ffynnu wrth gyrraedd yr ysgol.
- Trwy ddarparu cymorth i deuluoedd ac ymyrraeth gynnar mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol a lleoliadau gwaith ieuenctid.
- Trwy gynyddu presenoldeb mewn ysgolion a cholegau.
- Trwy ddarparu ymyrraeth gynnar trwy wasanaethau ymwelwyr iechyd.
- Trwy ddarparu addysg llythrennedd ariannol mewn canolfannau teulu.

## **2.4 Datblygu cymdeithas gynhwysol**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddarparu cyfleoedd i gael mynediad i gyfleusterau addysgol.
- Trwy sicrhau bod yr holl blant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion ychwanegol yn cael addysg briodol o ansawdd da mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Trwy sicrhau y gall pobl sy'n anabl neu â chlefyd cronig fanteisio ar gyfleoedd addysg a dysgu.
- Trwy weithredu Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.
- Trwy ddatblygu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion pobl anabl er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac annibyniaeth.
- Trwy annog cynnydd yn y nifer sy'n derbyn prydau ysgol am ddim mewn ffordd sensitif.
- Trwy sicrhau mynediad i hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i ymarferwyr iechyd, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, gwirfoddolwyr ac i'r cyhoedd.

## **2.5 Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy gynhyrchu a gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Trwy ddatblygu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol lle bo modd.
- Trwy gynnig mwy o gyrsiau dysgu cymunedol i oedolion sy'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Trwy annog rhieni i gefnogi eu plant i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau dilyniant rhwng cyfnodau allweddol.

## Beth gallwch chi ei wneud?

- Cysylltu â'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** i gael gwybodaeth am ofal plant cofrestredig ac amrywiaeth o wasanaethau eraill i blant a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin drwy ffonio 01267 246555 neu fynd i [www.fis.sirgar.gov.uk](http://www.fis.sirgar.gov.uk)
- Cysylltu â Gwasanaeth Sgiliau Sylfaenol Sir Gaerfyrddin am wybodaeth ar **sgiliau sylfaenol i oedolion**, ar 01554 776 528
- Ymaelodi â **llyfrgell** leol; ewch i [www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/addysg/llyfrgelloedd/Pages/Home.aspx](http://www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/addysg/llyfrgelloedd/Pages/Home.aspx)
- **Diweddarau'ch sgiliau** neu **ddysgu rhai newydd** – cysylltwch â Choleg Sir Gâr ar [www.colegsirgar.ac.uk](http://www.colegsirgar.ac.uk); neu Brifysgol y Drindod Dewi Sant ar [www.ydrindoddewisant.ac.uk/cy/](http://www.ydrindoddewisant.ac.uk/cy/) neu Ddysgu Cymunedol Sir Gâr ar [www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/addysg/Dysgu%20Gydol%20Oes](http://www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/addysg/Dysgu%20Gydol%20Oes)
- Cysylltu â [www.travellingahead.org.uk](http://www.travellingahead.org.uk) i gael gwybodaeth i **blant sipsiwn a theithwyr**
- Mynd i [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) i gael cyngor, gwybodaeth ac arweiniad diduedd ar **yrfaedd** i bobl o bob oed.

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

### Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn:

- Cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion
- Cyrhaeddiad galwedigaethol ac addysgol (gan gynnwys NEET)
- Nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd â o leiaf un gradd A\* i G TGAU neu GNVQ
- Oedolion oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau
- Nifer y myfyrwyr sy'n gadael addysg uwch i fyd gwaith.

### 3. Canlyniad: Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Mae Sir Gaerfyrddin yn dal yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y wlad.

Mae lefelau trosedd yn isel iawn, a rhanbarth cyffredinol heddlu Dyfed Powys yw'r rhanbarth mwyaf diogel ar draws y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â llaesu dwylo, ac mae angen i ni barhau i gydweithio i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gan gymunedau lleol er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ardal lle rydym yn byw.

Rydym yn ymroddedig i gynnal a lleihau ymhellach, lle bo modd, lefelau troseddu ac anhrefn yn ystod y 5 mlynedd nesaf, ac mae'r Strategaeth hon yn amlinellu rhai ffyrdd yr ydym yn bwriadu eu defnyddio i wneud hynny. Ar ben y gweithgareddau prif ffrwd niferus mae pob sefydliad yn eu cyflawni'n feunyddiol, mae'r Strategaeth yn amlinellu'r camau partneriaeth allweddol sy'n canolbwyntio ar dargedu blaenoriaethau lleol. Mae targedau uchelgeisiol wedi eu pennu, a bydd cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n barhaus i sicrhau bod ein gwaith yn parhau'n effeithiol. Bydd y nodau canlynol yn arwain cyfeiriad eich gwaith, a hefyd yn rhoi syniadau i chi ar gyfer gwella eich diogelwch a'ch lles eich hunan.

#### Nodau:

#### 3.1 Cynnal ac anelu at leihau lefelau trosedd sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr

##### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy leihau cyfraddau aildroseddu, yn benodol trwy ganolbwyntio ar dargedu ein troseddwy'r mwyaf cyson er mwyn ceisio torri cylch eu troseddu.
- Trwy gydweithio i leihau ffactorau risg a chynorthwyo teuluoedd trwy wasanaethau mwy integredig ac ymyrraeth gynnar.
- Trwy ganolbwyntio gwaith grwpiau gweithredu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar fannau sy'n wael am droseddu ac ar dueddiadau o ran troseddu er mwyn atal preswylwyr lleol rhag dioddef troseddau.
- Trwy gyflwyno dull amlasiantaeth, pwrpasol o ymateb i wybodaeth am lefelau cyfredol troseddau.
- Trwy ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth fel rhan o'r trefniadau diogelwch cymunedol lleol.
- Trwy wella ystadau tai mewn partneriaeth â'r preswylwyr, trwy'r Prosiect Gwaith Amgylcheddol.



### **3.2 Gwella hyder cymunedau lleol ein bod ni'n rhoi sylw i'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu**

#### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy gysylltu â grwpiau cymunedau lleol er mwyn ymdrin â blaenoriaethau trosedd ac anhrefn a rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau er mwyn dangos sut yr ydym yn cydweithio i leihau troseddu ac anhrefn.
- Trwy annog pob un o'n cymunedau amrywiol i roi gwybod am droseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Trwy gyflawni ymgyrchoedd atal troseddu ar drothwy'r drws a sefydlu parthau dim galw heb wahoddiad mewn cymunedau lleol.
- Trwy orfodi deddfwriaeth niwsans statudol ar draws y sir.

### **3.3 Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol**

#### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy weithio gyda phobl ifanc i gynyddu ymwybyddiaeth o'r effaith y gall eu hymddygiad ei chael ar bobl eraill.
- Trwy sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r pwerau a'r ymyriadau cywir mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid allweddol i fynd i'r afael â materion.
- Trwy gynyddu hyder pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau.
- Trwy hybu perchnogaeth a goruchwyliaeth leol ar gyfleusterau hamdden cymunedol.

### **3.4 Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol**

#### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy wella ansawdd a defnydd data o amrywiaeth eang o ffynonellau, er mwyn sicrhau bod mentrau'n cael eu targedu'n effeithiol.
- Trwy orfodi cyfreithiau Trwyddedu ar draws y sir.
- Trwy gyflwyno a chefnogi amrywiaeth o brosiectau i fynd i'r afael â materion troseddu ac anhrefn fin nos yng nghanol trefi.
- Trwy wella'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref ac i'r rhai sy'n cyflawni'r drosedd honno.

### **3.5 Diogelu pawb rhag cael eu cam-drin, eu herlid, eu hesgeuluso a'u hecsbloetio**

#### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy leihau ffactorau risg megis camdriniaeth yn y cartref, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chynorthwyo teuluoedd trwy ymyrraeth gynnar.
- Trwy hybu amddiffyn plant mewn ysgolion a thrwy gyrff llywodraethu.
- Trwy sicrhau bod gan staff sy'n gweithio i amddiffyn plant wybodaeth lawn am eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn plant.
- Trwy sicrhau bod gan y gweithlu rheng flaen y gallu, yr arweinyddiaeth a'r systemau angenrheidiol i amddiffyn plant yn ddigonol.
- Trwy sicrhau cydymffurfiaeth â Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, ac yn benodol y canllaw ynghylch y ddyletswydd i ddiogelu a hybu lles plant o dan Adran 28 o'r Ddeddf.
- Trwy sicrhau, lle bo'n bosibl, na all pobl sydd mewn perygl gyrchu eitemau y gellid eu defnyddio ar gyfer hunanladdiad.
- Trwy sicrhau ein bod ni'n cymryd y camau priodol er mwyn diogelu oedolion bregus fel rhan o waith y Bwrdd Diogelu Oedolion Sir Gaerfyrddin a'r tîm lleol.

### **3.6 Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ar y ffordd**

#### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy roi sylw i ddiogelwch ar y ffyrdd trwy barhau i gydgyssylltu gwaith addysg, gorfodi a pheirianeg yr asiantaethau partner perthnasol.
- Trwy weithredu Strategaeth Rheoli Cyflymder Sir Gaerfyrddin.
- Trwy weithredu Strategaeth Arafu Traffig ger Ysgolion Sir Gaerfyrddin.
- Trwy ddatblygu partneriaeth gydweithredol ar gyfer diogelwch ffyrdd gyda'r Grŵp Gweithredu Beiciau Modur – Cymru.
- Trwy weithredu mentrau o dan arweiniad cymunedau ac ysgolion ym maes addysg ar ddiogelwch ffyrdd.
- Trwy fonitro a rheoleiddio diogelwch ceir ail law a werthir gan fusnesau yn Sir Gaerfyrddin.

## Beth gallwch chi ei wneud?

- **Defnyddio'r rhif ffôn 101 ar gyfer sefyllfaoedd nad ydynt yn argyfwng** i roi gwybod am ymddygiad amheus, ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Heddlu.
- **Cymryd cyfrifoldeb** am eich diogelwch a'ch eiddo eich hun; cysylltwch â'ch Swyddog Diogelwch Cymunedol lleol i gael cyngor ar **101**.
- **Rhoi gwybod am weithgarwch troseddol** yn ddiennw i Crimestoppers ar **0800 555111**.
- **Ymaelodi â'ch cynllun Gwarchod Cymdogaeth Lleol** neu sefydlu un – ffoniwch 101 a gofynnwch am gael siarad â'ch Tîm Plismona Cymdogaeth Lleol.
- Mynychu cyfarfodydd **Partneriaid a Chymunedau yn Cydweithio (PACT)** i drafod unrhyw bryderon sydd gennych am droseddu ac anhrefn yn lleol.

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

### Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn:

- Nifer y damweiniau ffyrdd
- Cyfanswm nifer y troseddau a gofnodir
- Teimlo'n ddiogel yn eich ardal leol yn ystod y dydd
- Teimlo'n ddiogel yn eich ardal leol yn ystod y nos
- Nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

## 4. Canlyniad: Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Mae Sir Gaerfyrddin - gardd Cymru - yn adnabyddus am ei chymunedau amrywiol a'i hamgylchedd naturiol gwych. Rydym am sicrhau ein bod yn datblygu'n gynaliadwy fel bod pawb yn y sir yn gallu mwynhau gwell safon byw nawr, ac am genedlaethau i ddod.

Dengys tystiolaeth gyfoes ein bod yn byw "y tu hwnt i'n hadnoddau" - gan ddefnyddio adnoddau naturiol ynghynt nag y gellir eu hadnewyddu, a chynhyrchu allyriannau nwyon tŷ gwydr cynyddol, sydd yn arwain at newidiadau yn ein hinsawdd. Byddai dyfodol cynaliadwy i Sir Gaerfyrddin yn golygu ein bod ni oll yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau ein ôl-troed carbon ac yn dechrau'r daith at ffordd fwy cynaliadwy o fyw trwy ddefnyddio llai o ynni a byw bywyd mewn dull carbon-isel.

Rydym am barchu ein cymunedau a'n hamgylchedd, a bydd y nodau canlynol yn tywys ein gwaith, a hefyd yn rhoi syniadau i chi o ran y camau y gallwch chithau eu cymryd i gefnogi hyn.

### Nodau:

#### 4.1 Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol heb ddefnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein allyriadau carbon

##### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy ddefnyddio llai o ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon – gosod targedau i leihau'r ynni a ddefnyddir mewn adeiladau cyhoeddus a chartrefi, a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr ohonynt.
- Trwy hybu cynhyrchu mwy o ynni ar lefel gymunedol a symud tuag at ddod yn hunangynhaliol ym maes ynni adnewyddadwy.
- Trwy sicrhau bod pob adeilad newydd yn cael ei adeiladu i'r safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni ac yn cynhyrchu dim carbon.
- Trwy annog cymunedau ac unigolion i chwarae eu rhan fel bod pobl leol yn rhan o hybu ffordd garbon isel a gwastraff isel o fyw, ac yn cefnogi'r newid i ffordd garbon isel o fyw.
- Trwy leihau'r adnoddau a ddefnyddir trwy annog defnydd a chynhyrchu cynaliadwy – hyrwyddo a hybu prynu bwyd lleol, cynaliadwy, tymhorol mewn cymunedau, ac ehangu rhandiroedd a chynhyrchu bwyd yn y gymuned.

## **4.2 Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy sicrhau bod adnoddau'n cael eu gwerthfawrogi gan arwain at leihad anferth yn y gwastraff a gynhyrchir a phwyslais mwy o lawer ar aildefnyddio.
- Trwy godi cyfraddau compostio ac ailgylchu yn y cartref a'r gwaith.
- Trwy barhau i hyrwyddo'r neges 'arbed, aildefnyddio, ailgylchu' a chynyddu cyfranogiad yn y cynlluniau sy'n bodoli eisoes.
- Trwy hyrwyddo cynlluniau aildefnyddio, ailgylchu a chompostio bwyd/gwastraff gwyrdd yn y gymuned.
- Trwy gyfrannu at sesiynau codi sbwriel lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o becynnu gormodol a gwaredu priodol.

## **4.3 Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddefnyddio'r polisiâu cynllunio defnydd tir yn y Cynllun Datblygu Lleol i hybu datblygu cynaliadwy a helpu i adeiladu cymunedau mwy cynaliadwy, gyda mynediad at wasanaethau lleol, a chan leihau'r angen i deithio.
- Trwy sicrhau bod datblygiadau neu brosiectau yn y dyfodol yn ystyried yr effaith ar yr amgylchedd naturiol, a'r cyfleoedd i'w wella.
- Trwy sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn ystyried effaithiau newidiadau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd, ac yn cynllunio ar eu cyfer.
- Trwy ddatblygu economi carbon isel sy'n cryfhau economïau lleol trwy hybu swyddi, sgiliau a hyfforddiant lleol sy'n cryfhau cymunedau at y dyfodol - e.e. twristiaeth a hamdden gwyrdd, cynhyrchu bwyd yn lleol.
- Trwy wella'r mynediad i nwyddau, gwasanaethau, swyddi a dysgu mewn ffyrdd carbon isel er mwyn i bobl allu gweithio'n nes adref.
- Trwy gynyddu nifer y tai fforddiadwy mewn partneriaeth gyda thenantiaid, landlordiaid preifat, cymdeithasau tai a datblygwyr er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion a ganfuwyd.
- Trwy hyrwyddo mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol cynaliadwy yn y gymuned.

#### **4.4 Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y sir**

##### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy gynyddu ein gwaith gyda gwirfoddolwyr, cymunedau, a sefydliadau'r trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol.
- Trwy ddatblygu dealltwriaeth plant a phobl ifanc o faterion amgylcheddol a byd-eang.
- Trwy weithio tuag at dargedau asesu Greenspace fel rhan o'n prosesau cynllunio tir yn y dyfodol.
- Trwy gyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
- Trwy gynyddu nifer y busnesau yn Sir Gaerfyrddin a sefydliadau partner sy'n rheoli eu tir eu hunain er lles bioamrywiaeth.
- Trwy sicrhau bod gan bob cymuned amgylchedd lleol gwell sy'n cyfrannu at iechyd a lles.
- Trwy gyflawni'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol.
- Trwy sefydlu cyfres o safleoedd bywyd gwyllt yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar y meini prawf cenedlaethol.

#### **4.5 Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy**

##### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddarparu arweinyddiaeth ac annog rhwydweithiau a chymdeithasau lleol i hybu ffyrdd cynaliadwy o fyw.
- Trwy annog cynghorau Tref a Chymuned i ddatblygu cynlluniau a chefnogi gweithgareddau a fydd yn creu cymunedau mwy cynaliadwy a gwydn.
- Trwy hyrwyddo twristiaeth a hamdden gwyrdd.
- Trwy ddatblygu polisiâu a rhaglenni sy'n targedu penderfynyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol iechyd.
- Trwy annog defnyddio tir ar gyfer bwyd lleol a grwpiau tyfu bwyd lleol.
- Trwy ddarparu'r seilwaith a'r gwasanaethau i alluogi pobl i fyw bywydau carbon isel.
- Trwy ddarparu hyfforddiant i aelodau o gymunedau i gynyddu hunanreolaeth Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'u gallu 'i wneud drostynt eu hunain'.
- Trwy gyflawni'r prosiect Cymunedau sy'n Cydweithio sydd â'r nod o greu mentrau cymdeithasol fydd yn arwain y ffordd a chynorthwyo cymunedau i ddod yn gynaliadwy.
- Trwy gynorthwyo grwpiau gwirfoddol/cymunedol i wella eu cynaliadwyedd a lle bo'n berthnasol i ddod yn ddarparwyr gwasanaethau.
- Trwy gynnwys tenantiaid ymhellach yn y gwaith o reoli eu cartrefi, trwy'r Cynllun Cynnwys Tenantiaid.
- Trwy ddarparu seilwaith a gwasanaethau i reoli a/neu liniaru risgiau llifogydd.

## **4.6 Datblygu dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy integreiddio cynllunio trafndiaeth a chynllunio defnydd tir.
- Trwy ddarparu ymateb amlasiantaeth i fynd i'r afael â phroblemau hysbys gyda thrafnidiaeth ar draws y sir.
- Trwy weithio mewn partneriaeth i wella'r ddarpariaeth trafndiaeth gymunedol lle bo'n berthnasol a chynaliadwy.
- Trwy gefnogi datblygiad parhaus trafndiaeth gyhoeddus wledig.
- Trwy ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau a seilwaith i wneud cerdded a beicio, trafndiaeth gyhoeddus a rhannu ceir yn fwy deniadol.
- Trwy ddatblygu a hyrwyddo safleoedd Parcio a Theithio/Rhannu lle bo'n briodol ac yn ymarferol.
- Trwy integreiddio gwasanaethau Rheilffordd, Bws, Cerdded a Beicio a'u seilwaith er mwyn annog pobl i ddefnyddio llai ar geir preifat.
- Trwy leihau effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

## **4.7 Sicrhau yr hyrwyddir yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy gynyddu cyfleoedd cymdeithasol dwyieithog a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Trwy ddarparu addysg anffurfiol ddwyieithog a Chymraeg.
- Trwy hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol trwy brosiectau fel Tywi Afon yr Oesoedd.
- Trwy gynyddu cyfranogiad gan sefydliadau sy'n hybu'r iaith ym mhob partneriaeth ar draws y Sir.
- Trwy sicrhau bod buddiannau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, gan gynnwys defnydd o bolisiau cynllunio tir.

## Beth gallwch chi ei wneud?

- **Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu**, pwyllwch cyn prynu – ewch i [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)
- **Gwirfoddoli** – ymunwch â phrosiectau amgylcheddol lleol – cysylltwch â [www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk)
- **Cymryd rhan** – os oes gennych syniad ar gyfer prosiect cymunedol amgylcheddol yr hoffech gael cymorth gydag ef, cysylltwch â thîm Trefi Taclus ar 01269 590216 neu Cadwch Gymru'n Daclus ar 07824 504805
- Lle bo modd – **rhannwch gar neu ewch ar y bws** – cysylltwch â [www.swwitch2share.com](http://www.swwitch2share.com) neu Teithio Sir Gâr ar 01267 234567
- Cyfrif eich ôl **troed carbon** a gweld sut y gallwch ei leihau – ewch i [www.energysavingtrust.org.uk/calculator/start](http://www.energysavingtrust.org.uk/calculator/start)
- **Rhoi gwybod am ddymchwel sbwriel yn anghyfreithlon** – ffoniwch 01267 234567
- Dewch inni gael dechrau rhywbeth gwerth chweil – i gael mwy o wybodaeth am yr **Her Gymunedol** ffoniwch 01267 224902
- **Ymaelodi â'r Fforwm 50+** ffoniwch 01267 234567
- Dysgu Cymraeg trwy **Gymraeg i Oedolion** ffoniwch 01558 825296
- Dysgu mwy am waith eich **Cyngor Tref a Chymuned** lleol a'r hyn y gallwch chi ei wneud i helpu [www.sirgar.gov.uk/cymraeg/cyngorademocratiaeth](http://www.sirgar.gov.uk/cymraeg/cyngorademocratiaeth)
- **Cofnodi bywyd gwyllt** yn eich ardal – anfonwch eich cofnod i'r Ganolfan Cofnodion Lleol [www.wwbic.org.uk](http://www.wwbic.org.uk)
- Lle bo modd, dal y tren – ewch i [www.allpointswest.info/](http://www.allpointswest.info/) neu [www.traveline-cymru.info/](http://www.traveline-cymru.info/) i ddysgu mwy
- I gael rhagor o wybodaeth am **Bwcabws**, ffoniwch 01239 801601 neu ewch i [www.traveline-cymru.info/bwcabws](http://www.traveline-cymru.info/bwcabws)

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

### Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn:

- Allyriadau CO2
- Ynni adnewyddadwy
- Ôl troed ecolegol
- Gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi
- Trafnidiaeth
- Bioamrywiaeth
- Ansawdd afonydd
- Llifogydd
- Nifer y siaradwyr Cymraeg
- Nifer y siaradwyr Cymraeg sydd â mwy nag un sgil yn yr iaith (darllen, ysgrifennu, deall, siarad yr iaith).



## 5. Canlyniad: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus

Mae Sir Gaerfyrddin ar y blaen o ran syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio, ond mae hefyd yn parhau i weithio ar ei chryfderau neilltuol, sef amgylchedd, cymuned a diwylliant o ansawdd uchel fel rhan o economi gynhwysol, amrywiol a deinamig.

Bydd yr holl bartneriaid yn cydweithio i wneud Sir Gaerfyrddin yn fwy llewyrchus. Byddwn yn canolbwyntio ar y pethau hynny y gwelwyd eu bod yn heriau allweddol i dwf economaidd yn y Sir, ac yn darparu cyngor a chymorth i fusnesau, grwpiau ac unigolion yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn yn y dyfodol trwy gydweithio – yn gyrrff sector cyhoeddus, yn fusnesau, ac yn sector gwirfoddol, ynghyd â'r holl gymunedau.

Rydym am sicrhau dyfodol mwy llewyrchus i bawb, a bydd y nodau canlynol yn tywys cyfeiriad ein gwaith, yn ogystal â rhoi rhai syniadau i chi ynghylch camau y gallwch chi eu cymryd i gefnogi hynny.

### Nodau:

#### 5.1 Cadw pobl ifanc yn y sir a'u denu i'r sir a sicrhau'r cyflawniadau a'r dyheadau mwyaf posibl iddynt

##### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy sicrhau bod darpariaeth y Rhwydwaith 14-19 yn rhoi i bobl ifanc y sgiliau y mae eu hangen arnynt.
- Trwy weithio mewn partneriaeth gydag addysg bellach ac uwch i ddatblygu cysiau ôl-radd a chysiau byr.
- Trwy ddatblygu a chefnogi diwylliant entrepreneuriaidd er mwyn gwella'r economi a helpu i fynd i'r afael â thlodi cyfle.
- Trwy gyflenwi'r Rhaglen Menter Ieuenctid.
- Trwy ddatblygu gwasanaeth broceriaeth i wella cysylltiadau a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael eu recriwtio gan fusnesau lleol.
- Trwy weithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu Ranbarthol i ddatblygu rhwydwaith o bartneriaid allweddol i gynnal y rhaglen entrepreneuriaeth trwy ddefnyddio'r arsyllfa sgiliau ranbarthol i helpu i gau'r bwlch sgiliau a pharu anghenion busnesau gyda'r hyfforddiant a gynigir i bobl ifanc.
- Trwy ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc yn nhermau ffordd o fyw trwy ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol, chwaraeon a cherddorol.

## 5.2 Creu swyddi o ansawdd da ar draws y sir trwy ddatblygu a buddsoddi

### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer buddsoddi trwy adfywio safleoedd mewn trefi ac adfer safleoedd tir llwyd.
- Trwy sicrhau'r arian mwyaf posibl o ffynonellau Ewropeaidd a domestig.
- Trwy wireddu'r Prif Gynllun Adfywio pum mlynedd er mwyn cyfeirio buddsoddi i'r ardaloedd lle mae ei angen mwyaf.
- Trwy wireddu'r cynllun adfywio tair blynedd ar gyfer Morlan Elli (gan gynnwys Porth Tywyn).
- Trwy wireddu'r Gronfa Datblygu Eiddo Rhanbarthol er mwyn cynorthwyo i ddarparu safleoedd busnes ar hap.
- Trwy ymchwilio i'r potensial i ddarparu datblygiadau defnydd cymysg trwy Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW).
- Trwy fwrw ymlaen â gwaith adnewyddu allweddol ar ganol trefi gan ganolbwyntio ar Ganolfannau Twf Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin.
- Trwy gyflawni ein blaenoriaethau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.
- Trwy ymgysylltu ag eraill i gyflawni prosiectau cydweithredol ar draws y rhanbarth.
- Trwy weithio gyda darparwyr cyfleustodau i ganfod a chyflenwi gofynion o ran uwchraddio.
- Trwy ddarparu cartrefi fforddiadwy ar rent ac ar werth i bobl ifanc.

## 5.3 Cadw buddsoddiad yn yr economi leol

### Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Trwy ganfod cyfleoedd i wella caffael lleol mewn ffordd deg a thryloyw.
- Trwy gynorthwyo busnesau lleol i gynyddu eu gallu i wneud ceisiadau am gontractau.
- Trwy ymchwilio i ddatblygu llwyfan caffael rhanbarthol ar gyfer contractau'r sector cyhoeddus.
- Trwy helpu busnesau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a chefnogi ein newid i economi carbon isel.
- Trwy orfodi deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid a fydd yn cynnal a gwella safonau.

## **5.4 Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddenu buddsoddiadau newydd a swyddi newydd i'r sir ac ymateb yn gadarn ac yn briodol i'r hinsawdd economaidd bresennol.
- Trwy sicrhau bod y rheiny sydd yn yr angen mwyaf yn hawlio'r hyn mae ganddynt hawl iddo.
- Trwy gynorthwyo teuluoedd ac unig rieni i ddychwelyd i hyfforddiant a chyflogaeth.
- Trwy wella rhagolygon economaidd pobl sy'n economaidd anweithgar, a'u rhagolygon o ran cyflogaeth.
- Trwy gynorthwyo pobl i ddychwelyd i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach trwy'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.
- Trwy gynnal amgylchedd masnachu teg a chydradd.
- Trwy ddarparu a chyfeirio cyngor a chanllawiau busnes ar gyfraith masnachu.
- Trwy sicrhau mynediad at wasanaethau cwnsela a thrwy gyfeirio at wybodaeth am y gwasanaethau hynny, gan gynnwys budd-daliadau lles a dyled, profedigaeth a pherthynas ag eraill.

## **5.5 Creu economi a gweithlu dwyieithog**

### **Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

- Trwy ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu a hyfforddi.
- Trwy ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a gweithleoedd dwyieithog.

## Beth gallwch chi ei wneud?

- **Cefnogi busnesau lleol.** Prynu'n lleol: gweler y Cyfeiriadur Bwyd a Diod yn [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk) - [www.carmarthenshirepages.co.uk/places/marts](http://www.carmarthenshirepages.co.uk/places/marts)
- **Datblygu mentrau cymdeithasol a chyfleoedd trydydd sector** yn eich cymunedau – cysylltwch â Chymunedau sy'n Cydweithio ar 01269 590216 neu [www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk)
- **Cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** i gael gwybodaeth am warchodwyr plant cofrestredig ar 01267 224224
- **Edrych ar Money Made Clear** – cyngor diduedd am arian gan y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr – [www.cfebuk.org.uk](http://www.cfebuk.org.uk)
- I gael **cyngor a chymorth busnes** cysylltwch â [www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/busnes/Cymorth/Pages/Advice.aspx](http://www.sirgar.gov.uk/Cymraeg/busnes/Cymorth/Pages/Advice.aspx)
- Mynd i [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) i gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar **yrfaoedd** i bobl o bob oed.
- Dysgu am **gyngor i ddefnyddwyr a busnesau** drwy'r darllediad Safonau Masnach ar [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

### Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn:

- Y ddarpariaeth tai fforddiadwy
- Y gyfradd cyflogaeth
- Enillion amser-llawn wythnosol gros cyfartalog
- Incwm blynyddol cyfartalog cartrefi yn y sir
- Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra allweddol
- Cyfradd y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith
- Niferoedd cychwyn a therfynu busnes.

## 6. Monitro Cynnydd

Caiff y cynnydd ar gyflawni'r Strategaeth ei fonitro trwy'r model Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (RBA).

Dwy agwedd allweddol Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau yw 'atebolrwydd poblogaethau' ac 'atebolrwydd perfformiad'. Y rheswm pwysicaf dros wahaniaethu fel hyn yw'r gwahaniaeth o ran pwy sy'n atebol.

Mae atebolrwydd poblogaethau'n ymwneud â lles poblogaethau cyfan neu isboblogaethau (e.e. dinasoedd, cymunedau) ac fe'i ceir pan fo pob sefydliad yn gyfrifol ar y cyd am ganlyniad a dangosyddion ategol. Caiff y Strategaeth Gymunedol Integredig ei monitro yn erbyn set ddynodedig o ddangosyddion poblogaeth gyfan.

Ar y llaw arall mae atebolrwydd perfformiad yn ymwneud â lles poblogaethau o gleientiaid a byddai'r cyfrifoldeb ar un sefydliad, grŵp neu brosiect i gyflawni canlyniadau penodol sy'n cyfrannu at y canlyniad cydweithredol. Mae'r atebolrwydd perfformiad yn cynnwys mesuriadau perfformiad sy'n asesu llwyddiant gwasanaeth, ac yn y bôn dyma sut yr ydym yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Bydd y Partneriaethau Strategol yn cefnogi gweithredu'r Strategaeth Gymunedol Integredig ac yn darparu adroddiadau diweddarau ar gynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Bydd adroddiadau blynyddol ar gynnydd y Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin yn cael eu cyhoeddi a'u seilio ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion poblogaeth a nodir yn y canlyniadau uchod.

I gael rhagor o wybodaeth am RBA, y broses fonitro a'r adroddiadau diweddarau, ewch i wefan Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin ([www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk](http://www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk)).

## 7. Proffiliau Partneriaethau

Mae cyflawni'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn dibynnu ar nifer o wahanol drefniadau partneriaeth a grwpiau sydd wedi hen ymsefydlu yn Sir Gaerfyrddin. Nodir strwythur a threfniadau gweithio'r grwpiau hyn ar y tudalennau nesaf. Bydd y grwpiau hyn yn gweithio'n unigol ac ar y cyd er mwyn gweithio tuag at wireddu gweledigaeth a chyflawni canlyniadau'r Strategaeth hon.

### **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL (BGLI) SIR GAERFYRDDIN**

#### **Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:**

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bartneriaeth ddylanwadol sydd â nodau ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin ac sy'n ceisio cyflenwi'r gwasanaethau gorau posibl i'r sir. Mae'n cyfarfod bob deufis er mwyn dwyn ynghyd arweinwyr a phrif weithredwyr o sefydliadau partner allweddol yn Sir Gaerfyrddin. Mae ganddo hefyd uwch was sifil yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn eistedd ar y bartneriaeth. Mae hyn yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol a goresgyn unrhyw rwystrau ac atalfeydd.

Mae'r BGLI yn rhan o'r rhwydwaith ehangach o bartneriaethau a elwir ar y cyd yn Bartneriaeth Sir Gaerfyrddin. Mae hon yn cynnwys y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Partneriaeth yr Amgylchedd, y Bartneriaeth Adfywio, y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Y BGLI sy'n gyfrifol am bennu'r weledigaeth hirdymor i'r sir a'r partneriaethau eu hunain sydd wedyn yn gyfrifol am wireddu'r weledigaeth hon.

#### **Ar hyn o bryd meysydd gwaith allweddol y BGLI yw:**

- Strategaeth Gymunedol Integredig – Yn rhinwedd ei swydd fel partneriaeth drosfwaol y sir, y BGLI sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Strategaeth ac am oruchwylio ei chyflawni.
- Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Mae hyn yn golygu edrych ar wasanaethau yn y Bwrdd Iechyd ac yn is-adran Gofal Cymdeithasol y Cyngor a cheisio sicrhau bod y ddau faes yn cydweithio'n agosach er mwyn sicrhau buddion i drigolion Sir Gaerfyrddin. Y datblygiad diweddaraf yw ffurfio Timau Adnoddau Cymunedol sy'n dwyn ynghyd staff Iechyd a staff Gofal Cymdeithasol er mwyn cydweithio mewn un lleoliad.
- System Wybodaeth Leol – Datblygu setiau data lleol a ddefnyddir i lywio cynllunio strategol. Gall hyn fod ar ffurf cronfa ddata a gaiff ei lletya trwy gwmni arbenigol neu drwy ddatblygu system fewnol gan ddefnyddio mapio GIS.
- Adolygiadau o Asedau'r Ardal Leol - Mae hyn yn golygu edrych ar yr holl eiddo mae'r Cyngor a phartneriaid eraill yn berchen arno ac ymchwilio i'r potensial i werthu tir sydd dros ben, cydleoli staff a gwasanaethau a hefyd y potensial i drosglwyddo eiddo/tir i grwpiau cymunedol/elusennau. Mae'r prosiect wedi ei ddewis yn un o 9 Prosiect Partneriaeth gan Weithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, y Cyngor yw'r awdurdod lleol cyntaf yn y DU i fapio'i holl asedau drwy system genedlaethol ePIMS, ac mae bellach yn gweithio gyda holl gyrff eraill y sector cyhoeddus i ddefnyddio'r system er mwyn annog rhannu data ac adnabod cyfleoedd i gydweithio.
- 'Total Place' – Sir Gaerfyrddin yw'r sir gyntaf yng Nghymru i gael statws Prosiect Partneriaeth gan Gynulliad Cymru i edrych ar integreiddio gwasanaethau cyhoeddus mewn un adeilad. Mae adeilad segur wedi cael ei ganfod yn y sir a bydd gwaith yn dechrau cyn bo hir i ailgynllunio'r adeilad i greu siop dan yr unto a chydleoli staff Iechyd, y Cyngor, yr Heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill yno.

- Cynaliadwyedd - Mae partneriaid y BGLI bellach wedi gosod targedau lleihau carbon i bob un o'u hadeiladau cyhoeddus. Bydd angen monitro'r targedau hyn a byddant yn caniatáu i'r holl sefydliadau herio ei gilydd.
- Gwrthdodi - Mae'r BGLI wedi mabwysiadu Cyngor a Chefnogaeth Sir Gâr yn ffurfiol fel un o brosiectau'r bwrdd. Nod Cyngor a Chefnogaeth Sir Gâr yw dwyn ynghyd yr holl sefydliadau yn y sir sy'n gweithio ar yr agenda gwrthdodi. Nod y Rhwydwaith yw dod â sefydliadau at ei gilydd a sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu'n digwydd ac y defnyddir dull cyson wrth gynnig cymorth a chynghor i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae mwy a mwy o bobl yn cael eu diswyddo, mae pobl yn methu â thalu eu biliau cyfleustodau fwyfwy ac nid yw pobl hŷn yn gwybod am y budd-daliadau y gallant eu hawlio. Nod Rhwydwaith Cyngor a Chefnogaeth Sir Gâr yw helpu pobl fel y rhain gyda chyfres o ymgyrchoedd wedi eu targedu a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.
- Cynllun Peilot Undebau Llafur – Mae Sir Gaerfyrddin yn treialu prosiect cyswllt â'r gweithlu ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu cysylltu ag undebau llafur a sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau perthnasol gan y BGLI.

### **Aelodau'r Bartneriaeth:**

- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Heddlu Dyfed-Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Coleg Sir Gâr
- Llywodraeth Cymru
- Gwasanaeth Tan ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru.

### **Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

- Strategaeth yr Iaith Gymraeg
- Cynllun Cydraddoldeb Sengl
- Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth 50+
- Creu'r Cysylltiadau.

## PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

### Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn bodoli ers 1998 pan osododd Deddf Trosedd ac Anhrefn ddyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol i weithio gyda'r heddlu a phartneriaid eraill i sefydlu partneriaeth â chyfrifoldeb dros fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn yn ei ardal leol.

Mae'r Bartneriaeth yn drefniant statudol hirdymor sydd yn elwa o berthynas waith gref sydd wedi cael ei hadeiladu rhwng y partneriaid dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r Bartneriaeth yn cwrdd bob deufis, a Phrif Weithredwr y Cyngor Sir sy'n cadeirio'r cyfarfod. Mae'n dwyn ynghyd uwch swyddogion o ystod o bartneriaid lleol sydd â'r nod o wneud Sir Gaerfyrddin yn le diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Mae'r PDC yn gosod cyfeiriad strategol i'r gwaith partneriaeth er mwyn ymdrin â blaenoriaethau trosedd ac anhrefn, sydd wedi eu pennu gan bartneriaid a chymunedau lleol. Mae'r Bartneriaeth yn arwain y gwaith o fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y gymuned, yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, troseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol, lleihau aildroseddu, diogelwch ar y ffordd gan gynnwys goryrru, a throseddau megis byrgleriaeth, cam-drin yn y cartref a throseddau cerbydau.

Mae gweithredu'r gwaith partneriaeth yn digwydd drwy nifer o grwpiau sirol a lleol. Mae'r grwpiau gweithredu yn targedu troseddau penodol megis troseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol, camddefnyddio sylweddau, trosedd ceir a byrgleriaeth. Yn ogystal, mae grwpiau gweithredu ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol sy'n ymdrin ag unigolion ac ardaloedd blaenoriaeth mewn dull aml-asiantaeth. Ceir hefyd strwythur comisiynu ar gyfer camddefnyddio sylweddau, a'r PDC sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau. Mae nifer o grwpiau penodol sydd yn ffocysu ar weithredu blaenoriaethau'r Strategaeth Cydgomisiynu er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau posib i'r rhai sydd eu hangen.

Mae ymgyrchoedd megis y tîm heddlu penodol sy'n ymdrin â'r troseddwr mwyaf toreithiog yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Prawf ynghyd â'r prosiect "Lleihau Niwed" er mwyn sicrhau dull integredig o reoli troseddwr a'r teuluoedd yr effeithir arnynt.

Mae Teledu Cylch Cyfyng (TCC) yn faes arall lle ceir partneriaeth gref rhwng yr heddlu a'r Cyngor. Mae goruchwylwyr TCC y cyngor yn monitro camerâu'r heddlu. Rydym yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posib o adnoddau.

### Aelodau'r Bartneriaeth:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Heddlu Dyfed-Powys
- Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys
- Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Troseddu ac Atal Troseddu Ieuencid.



**Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

- Strategaeth Cydgomisiynu ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Cymru gyfan
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin
- Strategaeth Diogelwch Ffyrdd, 2011-15
- Strategaeth Rheoli Goryrru.

## PARTNERIAETH PLANT A PHOBL IFANC

### Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

Sefydlwyd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPI) yn 2006 mewn ymateb i Ddeddf Plant 2004, yn benodol i Gylchlythyr Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau. Mae swyddogion lefel uchel o'r Heddlu, Iechyd, y Gwasanaeth Tân, y Sector Gwirfoddol a'r Cyngor Sir yn mynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth. Mae dyletswydd statudol ar y bartneriaeth i lunio a chyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc, sydd â'r nod o wella bywydau plant a phobl ifanc 0 i 25 oed. O 2011 ymlaen, fe fydd y cynllun wedi ei ymgorffori yn Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i'w holl waith polisi ar gyfer plant a phobl ifanc ers 2004. At ddibenion cynllunio a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, mynegir hyn mewn saith nod craidd sydd wrth wraidd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac sy'n nodi y dylai pob plentyn a pherson ifanc allu:**

1. cael dechrau da mewn bywyd a'r sylfaen gorau posibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol;
2. cael mynediad i amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd ym meysydd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol;
3. mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl gan gynnwys peidio â chael eu cam-drin, eu herlyn na'u hecsbloetio;
4. cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. cael gwrandawriad, eu trin â pharch a chydabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
6. cael cartref diogel a chymuned sy'n cynorthwyo eu lles corfforol ac emosiynol;
7. peidio â dioddef anfantais yn sgil tlodi plant.

**Ar gyfer Cynllun (PPI) 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio sy'n cynnwys Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol mewn pedwar maes allweddol:**

Tlodi plant

Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Chwarae, gan gyfeirio'n benodol at anghenion plant anabl; a

Chyfranogiad.

**O weithdy amlasiantaeth o bartneriaid PPI, dewiswyd dwy egwyddor ymyrraeth gynnar a mynd i'r afael â thlodi plant i fod yn sylfaen i'r pedwar maes blaenoriaethol allweddol, sef:**

Llythrennedd, addysg a chyflogaeth

Diogelu plant

Iechyd meddwl emosiynol

Camddefnyddio sylweddau ac alcohol

## Bydd y Bartneriaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros hyrwyddo'r canlynol:

Bod iechyd da yn y blynyddoedd cynnar a'r glasoed yn gyfraniad hollbwysig i gynnal iechyd da drwy gydol oes;


Bod gan iechyd a lles plant gysylltiad agos iawn ag iechyd a lles eu teuluoedd;

Bod plant yn defnyddio gwasanaethau eraill ar wahân i'r rhai sydd wedi'u bwriadu'n arbennig ar eu cyfer; a bod plant yn mynd ymlaen i ddefnyddio gwasanaethau sydd wedi'u bwriadu i oedolion ac felly bod trefniadau pontio da yn hollbwysig.

Bydd y Bartneriaeth PPI hefyd yn sicrhau bod gan ysgolion, colegau, sefydliadau addysg uwch, darparwyr hyfforddiant a chyrrff cynrychioliadol chwaraeon / celfyddydau, ynghyd â sefydliadau'r trydydd sector, ran i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r cynllun.

Er mwyn sicrhau ein bod ni yn ymdrin â Thlodi plant, bydd prosiectau'r Bartneriaeth yn anelu at leihau'r nifer o deuluoedd sy'n byw mewn cartrefi di-waith; at wella sgiliau rhieni a phlant mewn cartrefi incwm isel fel eu bod yn medru sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda: lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella'r canlyniadau i'r tlotaf.

Dangosir strwythur y bartneriaeth a'i gweithgorau cysylltiedig isod.



### **Aelodau'r Bartneriaeth:**

- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys
- Heddlu Dyfed-Powys
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Ardal Dyfed-Powys
- Menter Cwm Gwendraeth
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

### **Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

- Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- Cefnogi Pobl
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Gofalwyr
- Cynllun Busnes y Bwrdd Lleol Diogelu Plant
- Cynllun Pum Mlynedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Cynllun Datblygu Rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14-19
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Lleol
- Y Cynllun Mawr: Strategaeth Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu
- Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol.

## BWRDD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

### **Yn ôl y canllawiau cenedlaethol ar ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y canlynol yw'r meysydd allweddol ar gyfer datblygu:**

1. Gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau, hynny yw, yr anghydraddoldebau iechyd sy'n annheg ac y gellir eu hosgoi. Bydd yr adran hon o'r Strategaeth yn darparu ymateb a chynllun gweithredu lleol ar gyfer cyflawni Ein Dyfodol Iach, fframwaith strategol Cymru ar gyfer iechyd y cyhoedd.
2. Gwella darpariaeth, ansawdd, integreiddiad a chynaliadwyedd 'gwasanaethau sy'n gorgyffwrdd', hynny yw, gwasanaethau a ddarperir gan y GIG, llywodraeth leol a'u partneriaid i rai grwpiau penodedig (pobl hŷn fregus eu hiechyd, pobl â chyflyrau hirdymor, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu, pobl ag anableddau corfforol a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau).

Mae'r meysydd allweddol hyn yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Gymunedol Integredig yn Sir Gaerfyrddin a bydd y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau strategol eraill i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Cytunwyd mai'r canlynol yw cylch gwaith a chwmpas cyfrifoldebau Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin:

### **Datblygu, cymeradwyo ac adolygu strategaethau, polisiau ac arferion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau a/neu staff yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y meysydd canlynol:**

1. Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin
2. Model ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sylfaenol, cymunedol a gofal cymdeithasol integredig yn y dyfodol, i gynnwys y canlynol:
  - Gwasanaethau Oedolion a Phobl Hŷn (gan gynnwys pobl â chyflyrau cronig)
  - Gwasanaethau Anableddau Corfforol
  - Gwasanaethau Anableddau Dysgu
  - Gwasanaethau Iechyd Meddwl
  - Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
  - Gwasanaethau Plant.
3. Gwaith ardal gyda Gwasanaethau Tai ac Iechyd y Cyhoedd mewn perthynas â gwella iechyd, atal afiechyd, ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol, gwybodaeth iechyd a diogelu iechyd.
4. Polisiau, gweithdrefnau a threfniadau cynllunio (er enghraifft, gweithdrefnau cwyno) i gynnal datblygiad model gwasanaeth integredig.
5. Rheoli perfformiad integredig.
6. Rhannu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth staffio er mwyn cynnig gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol a bod yn sail i'r cynllunio hwnnw.
7. Cynllunio, comisiynu a chontractio rhwng y Partneriaid.

### **Aelodau'r bartneriaeth:**

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
- Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda.

### **Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

#### **Cenedlaethol**

- Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol
- Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi (Tachwedd 2009)
- Cynllun Iechyd Gwledig – Darparu Gwasanaethau yn Well ar draws Cymru (2009)
- Ein Dyfodol Iach (Hydref 2009)
- Creu Cymru Egniol (Rhagfyr 2009)
- Siarad â mi: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i ostwng Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru 2009-2014.

#### **Lleol**

- Cynllun Pum Mlynedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda 2010-15
- Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol
- ABC y Gwasanaethau Cymunedol Integredig: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol Mawrth 2010
- Y Cynllun Mawr: Strategaeth Comisiynu ar y Cyd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu 2009-11
- Strategaeth Cydgomisiynu ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd, gofal cymdeithasol a thai i bobl dros 65 oed 2008-11
- Strategaeth Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl ag Anableddau Corfforol a Namau Synhwyraidd yn Sir Gaerfyrddin 2005-10
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gofalwyr (2007)
- Strategaeth Cydgomisiynu i Bobl â Phroblemau Camddefnyddio Sylweddau a'u Teuluoedd 2008/11
- Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Bobl ag Anghenion Iechyd Meddwl yn Sir Gaerfyrddin 2010/15
- Cynllun Gwasanaethau Tai Sir Gaerfyrddin.

# MENTRAU SIR GÂR

## Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

**Sefydlwyd Mentrau Sir Gâr gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gydgyssylltu gwaith y tair Menter Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cyngor Sir. Prif flaenoriaethau'r grŵp yw:**

1. Trafod materion strategol a datblygu Strategaeth Iaith 3-5 blynedd i'r sir a chytuno arni
  - Cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol Integredig
  - Cynorthwyo'r partneriaid i gyflawni amcanion cyffredin
2. Rhannu gwybodaeth ymysg yr aelodau ar ddatblygu cynllunio ieithyddol yn y sir a hyrwyddo'r arferion gorau
3. Datblygu prosiectau newydd ledled y sir er mwyn cyflawni amcanion y Strategaeth Iaith
4. Cydweithio i gynyddu'r gallu o ran cynllunio ieithyddol ymysg yr aelodau, gan gynnwys canfod cyfleoedd i rannu costau, adnoddau a staff er mwyn sicrhau effeithlonrwydd.

### **Aelodau'r Bartneriaeth:**

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Menter Bro Dinefwr
- Menter Cwm Gwendraeth
- Menter Gorllewin Sir Gâr.

### **Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Strategaeth Iaith Gymraeg "Iaith fyw: iaith byw", sydd yn gosod cyfeiriad strategol i ddatblygiad yr iaith ar draws Cymru ac sydd yn ymdrin ag amrywiaeth mawr o feysydd, yn cynnwys:

- Defnyddio'r Gymraeg yn y teulu
- Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg
- Defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol
- Prif ffrydio'r Gymraeg yng ngwaith cyrff sector cyhoeddus
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat a'r trydydd sector
- Darllen, gwyllo a gwrandao ar y Gymraeg
- Sicrhau'r adnoddau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg (gan gynnwys terminoleg, cyfieithu, technoleg ac ymchwil)
- Marchnata'r iaith.

Bellach mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar Fesur yr Iaith Gymraeg, ac mae'n cyflwyno fframwaith ddeddfwriaethol newydd ar gyfer hyrwyddo'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru ac yn cynnwys darpariaethau sydd wedi'u bwriadu i gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg.

Mae llawer o sefydliadau yn gweithio ac yn cyfrannu at nodau Strategaeth yr Iaith Gymraeg. Mae llawer o'r sefydliadau sy'n gweithio er lles y Gymraeg yn aelodau o Fforwm Sirol Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, Twf, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Canolfan Gymraeg i Oedolion, Estyn Llaw a Chlybiau Gwawr. Mae'r holl sefydliadau'n gweithio gyda chymunedau ac yn darparu gwasanaethau i bobl leol.

## PARTNERIAETH ADFYWIO

### Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

Sefydlwyd y Bartneriaeth i sicrhau bod asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a'r sector gwirfoddol, ynghyd â chymunedau, yn cydweithio i sicrhau datblygiad a thwf economaidd cynaliadwy yn y sir.

#### **Nod y Bartneriaeth yw sicrhau twf a ffyniant economaidd cynaliadwy i bawb trwy ganolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol sef:**

- darparu'r amgylchiadau cywir i fusnesau dyfu a ffynnu mewn modd cynaliadwy;
- lleihau anweithgarwch economaidd;
- cynyddu gallu busnesau Sir Gaerfyrddin i sicrhau busnes lleol, cenedlaethol a byd-eang;
- cadw a denu pobl ifanc;
- cryfhau ein cymunedau;
- mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

#### **Aelodau'r bartneriaeth:**

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Gyrfa Cymru Gorllewin
- Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol
- Llywodraeth Cymru
- Coleg Sir Gâr
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru
- Siambr Fasnach Gorllewin Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Spencer Davies Engineering
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
- Bwydydd Castell Howell Cyf.
- Menter Cwm Gwendraeth
- Antur Teifi

### **Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

Mae'r Bartneriaeth Adfywio'n cael ei hysgogi gan Raglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cymru.



# PARTNERIAETH YR AMGYLCHEDD

Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

**Y bartneriaeth yw'r corff arweiniol ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r materion canlynol yn Sir Gaerfyrddin:**

- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy
- Bioamrywiaeth, tirweddau a morweddau unigryw
- Ein hamgylchedd lleol
- Peryglon amgylcheddol
- Symud o gwmpas / trafndiaeth leol gynaliadwy.

Mae'r bartneriaeth hefyd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

## Aelodau'r Bartneriaeth:

Mae aelodaeth agored gan y Bartneriaeth.

**Mae gwaith y Bartneriaeth yn cael ei reoli gan Bwyllgor Gweithredol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:**

- Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru

## Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:

**Cenedlaethol:** Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned; Strategaeth Amgylcheddol Cymru; Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd; Tuag at Ddyfodol Diwastraff

**Rhanbarthol:** Gweithio tuag at Dde Orllewin Cymru Garbon Isel: Map o'r Daith; Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r De Orllewin

**Lleol:** Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin; Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin.

# FFORWM SIR GÂR EGNÏOL

## Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

Mae'r fforwm yn arwain ar gydlynu, datblygu a gweithredu gweledigaeth a nodau strategol Creu Cymru Egniol – y cynllun gweithgarwch Corfforol ar gyfer Cymru. Bydd y gwaith a'r cynlluniau a gydlynir gan y fforwm hefyd yn cyfrannu at wireddu'r canlyniadau y manylir arnynt yn y Strategaeth Gymunedol Integredig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

### Cefnogir y fforwm gan nifer o is-grwpiau sy'n ffocysu ar

- Chwaraeon
- Hamdden Actif
- Chwarae
- Bywydau Actif

### Aelodau'r Bartneriaeth:

- Addysg Bellach
- Addysg Uwch
- Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Sector Breifat / Chwaraeon
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sector Chwaraeon Gwirfoddol
- Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol (CAVS)
- Cyngor Chwaraeon Cymru – Rheolwr Rhanbarthol
- Pennaeth Chwaraeon neu gynrychiolydd chwaraeon ysgolion

Ceir cynrychiolwyr o bartneriaethau strategol eraill yn ôl y gofyn.

### Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:

Gweledigaeth Hamdden Sir Gaerfyrddin 2007-12

Ein Dyfodol Iach (Hydref 2009)

Creu Cymru Egniol (Rhagfyr 2009).

# BWRDD LLEOL DIOGELU PLANT

## Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

### Diben a chyfrifoldebau BLIDP Sir Gaerfyrddin

Sefydlodd Deddf Plant 2004 a Rheoliadau Bwrdd Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2005 ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLIDP) yn lle'r Pwyllgorau Amddiffyn Plant mewn Ardaloedd, yn fforwm rhyngasiantaeth ar gyfer cydlynu a sicrhau effeithiolrwydd asiantaethau a sefydliadau o fewn y gymuned wrth ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc.

#### **Mae gofyn bod Byrddau Lleol Diogelu Plant yn ymgymryd â'r canlynol:**

- Gwaith ymatebol i amddiffyn plant a phobl ifanc penodol
- Gwaith rhagweithiol ar gyfer plant mewn angen a phobl ifanc agored i niwed
- Gwaith ataliol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Wrth wneud hyn rhaid iddynt ganolbwyntio ar Blant mewn angen, plant sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso mewn teuluoedd, plant sydd wedi cael eu cam-drin y tu allan i deuluoedd gan oedolion y maent yn eu hadnabod, plant sydd wedi cael eu cam-drin gan ddieithriaid, plant sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan weithwyr proffesiynol, plant sydd wedi cael eu cam-drin gan bobl ifanc eraill, plant sy'n cam-drin eraill, plant sy'n gysylltiedig â phuteindra, plant sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, plant sy'n ceisio lloches, boed hynny gyda theuluoedd neu ar eu pennau eu hunain, plant sydd ag anghenion penodol neu anabledau, plant y mae gan eu rhieni allu cyfyngedig i'w magu, er enghraifft oherwydd camdriniaeth yn y cartref, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl rhieni.

#### **Amcanion strategol Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir Gaerfyrddin yw:**

1. Cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch gwaith y Bwrdd, a diogelu a hybu lles plant.
2. Datblygu a gweithredu polisiau, gweithdrefnau a phrosesau ar y cyd ar gyfer diogelu plant a hybu eu lles.
3. Sicrhau effeithiolrwydd gwaith asiantaethau i ddiogelu plant a hybu eu lles.
4. Datblygu effeithiolrwydd diogelu plant sydd yn arbennig o agored i niwed.
5. Datblygu Arfer Da, Profiad, Sgiliau a gwybodaeth am ddiogelu ac amddiffyn plant ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
6. Sicrhau bod dysgu'n digwydd yn sgil Adolygiadau Achosion Difrifol neu brofiadau dysgu priodol eraill.

#### **Mae gwaith Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir Gaerfyrddin yn cynnwys:**

- Datblygu polisiau a gweithdrefnau amlasiantaeth.
- Cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau'n strategol ar gyfer plant.
- Gweithio gyda Phartneriaethau, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelu plant a hybu eu lles.
- Derbyn gwybodaeth reolaidd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rhyngasiantaeth ac ymdrin ag unrhyw feysydd y mae angen eu gwella.

- Cynnal Adolygiadau Achosion Difrifol pan fydd plentyn yn marw neu'n cael ei anafu'n ddifrifol ac amheuir bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd, a lledaenu'r hyn a ddysgir o'r adolygiadau hyn.
- Dysgu o achosion lle gellir gwella gwaith rhyngasiantaeth a lledaenu'r dysgu hwnnw.
- Hysbysu'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant a chydweithredu â nhw pan fo plant yn marw'n annisgwyl.
- Sicrhau recriwtio diogel a gwirio.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad amlasiantaeth i staff ar ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc.
- Cytuno ar gyllideb ar gyfer y BLIDP a'i datblygu.
- Cyfrannu at arolygu gwasanaethau plant lleol ac adolygu'r canfyddiadau.

### **Aelodau'r Bartneriaeth:**

- Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Nyrs Ddynodedig Amddiffyn Plant, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Uwcharolygydd Heddlu Dyfed Powys
- Rheolwr y Gwasanaeth, Gwasanaeth Troseddau Ieuentid ac Ataliaeth Sir Gaerfyrddin
- Meddyg Dynodedig Amddiffyn Plant, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Bydwreigiaeth a Diogelu, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Rheolwr Isadrannol Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed Powys
- Y Prif Weithredwr, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
- Yr Aelod o'r Cyngor sy'n Arsylwi, a'r Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc.

Cynghorir y Bwrdd a'i gefnogi gan Reolwr BLIDP Sir Gaerfyrddin

### **Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

- Cynllun Busnes BLIDP 2011-14.

# BWRDD DIOGELU OEDOLION SIR GAERFYRDDIN

## Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

Bwrdd Diogelu Oedolion Sir Gaerfyrddin (y Pwyllgor Amddiffyn Oedolion gynt) sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a llywodraethu ym maes Diogelu Oedolion.

### Gwelir ei brif feysydd gwaith ym mhwm thema ei Gynllun Busnes amlasiantaeth, sef:

- Gwneud diogelu'n fusnes i bawb
- Dysgu o arfer
- Datblygu'r gweithlu
- Buddsoddi mewn diogelu
- Hybu ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

Yn y bôn, agwedd y Cyngor, yr Heddlu a'r GIG yw sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu diogelu, a bod yr agwedd honno'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn gwella lles defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

### Aelodau'r Bartneriaeth:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Heddlu Dyfed Powys
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Gwasanaeth Erlyn y Goron

### Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:

Prosiect ar gyfer 2011 ar Adeiladu Cymunedau Mwy Diogel trwy fenter ar feithrin cysylltiadau rhwng diogelu oedolion a throseddau casineb anabledd, yn arbennig datblygu partneriaethau lleol rhwng gwasanaethau diogelu oedolion a gwasanaethau megis tai, diogelu'r cyhoedd, diogelwch cymunedol, grwpiau anabledd a sefydliadau cymunedol perthnasol.

Fel rhan o wneud diogelu'n fusnes i bawb, rydym yn ymroddedig i godi proffil diogelu oedolion yn ystod 2011 gyda chyfres lawn o fentrau cyhoeddusrwydd a chynyddu ymwybyddiaeth e.e. gwefan, llythyr newyddion, cynhadledd flynyddol, gweithdai cymunedol, a thaflen, sydd i gyd wedi derbyn cefnogaeth amlasiantaeth.

# CYMDEITHAS GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR GAERFYRDDIN (CAVS)

## Disgrifiad o'r bartneriaeth a'i meysydd gwaith allweddol:

Rôl Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin yw datblygu gwirfoddolwyr a chyfleoedd gwirfoddoli yn y Sir, gan sicrhau bod llais y trydydd sector yn cael ei glywed wrth weithio gyda phartneriaid strategol a darparu gwasanaethau o dan y Cytundeb Isadeiledd rhwng Cynghorau Gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cymru. Enghraifft o hyn yw darparu gwybodaeth am gyllid i grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

## Prif feysydd gwaith

- Mae tîm **Nawdd a Datblygu** CAVS yn helpu grwpiau i ymsefydlu, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i grwpiau ynglŷn â deddfwriaeth a materion sy'n effeithio ar y sector gwirfoddol ar hyn o bryd. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth a chymorth ymarferol ynglŷn â nawdd. Mae'r tîm yn cynnwys dau Swyddog Datblygu Sefydliadau Cynaliadwy sy'n gweithio ar brosiect rhanbarthol Cymunedau sy'n Cydweithio.
- Mae **Canolfan Gwirfoddoli** CAVS yn cefnogi gwaith gwirfoddol, yn anelu at godi safonau ar gyfer gwirfoddolwyr ac yn hyrwyddo arferion da, gan helpu grwpiau i ddatblygu polisiau. Mae'r ganolfan yn paru cyfleoedd lleol i wirfoddoli gyda darpar wirfoddolwyr, ac yn rhoi hyfforddiant i wirfoddolwyr a rheolwyr gwirfoddolwyr. Mae'r Ganolfan yn gweithio o'r Mwnt yng Nghaerfyrddin ac o Stryd Ioan yn Llanelli.
- Mae tîm **Partneriaeth** CAVS yn darparu cyfleoedd i gyflwyno sylwadau, rhwydweithio a chydweithio. Mae'r tîm yn cynnwys Gwasanaeth Cynhalwyr Sir Gâr, Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Codi Pontydd Cadarn, Prosiect Chwarae Rhanbarthol, Prosiect Ymwybyddiaeth Amlddiwylliannol, a Phrosiect Cymunedau yn Gyntaf Bigyn 4.
- Mae tîm Cymunedau Cynaliadwy yn ymgorffori gwaith o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, cyfleoedd TGCh a digidol, agenda Cynaliadwyedd a menter **Cysylltiadau Cymunedol Celtaidd** sy'n edrych ar gynaliadwyedd lleoliadau cymunedol ar y cyd â phartneriaid o Iwerddon.
- Mae **CAVS yn hwyluso'r fforymau** canlynol – Y Sector Gwirfoddol, Iechyd a Lles, Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc, Dysgu Gydol Oes, Rhwydwaith Amlddiwylliannol, Rhwydwaith Cyllido, Rhwydwaith Trefnu Gwirfoddolwyr Sir Gaerfyrddin a'r Cynghrair Gofalwyr.

## Aelodau'r Bartneriaeth:

Mae gan CAVS dros 250 o aelodau cofrestredig. Etholir Bwrdd Ymddiriedolaeth CAVS o sefydliadau sydd yn aelodau llawn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Dr M'z
- Neuadd Les Llansaint
- Chwaraeon Olympaidd Arbennig Sir Gaerfyrddin
- Catch Up Ltd
- Grŵp Gofal Dementia Dyffryn Aman
- Age Concern Sir Gâr
- Grŵp Anabledd a Mynediad Llanelli
- CYCA
- Sgowtiaid 1af Llanelli
- Menter Gorllewin Sir Gâr
- Menter Cwm Gwendraeth
- Fforwm Pentref Glan y Fferi

**Mae cynrychiolwyr o'r sefydliadau allweddol yma hefyd yn eistedd ar y Bwrdd**

- Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Un Llais Cymru.

**Cynlluniau eraill sy'n cefnogi ein meysydd gwaith:**

**Cefnogir gwaith y Gymdeithas Sirol gan nifer o gynlluniau lleol a chenedlaethol. Mae'r cynlluniau allweddol yn cynnwys y canlynol:**

- Y Trydydd Dimensiwn
- Cynllunio i ychwanegu Gwerth – trydydd dimensiwn i Gymru'n Un
- Creu'r Cysylltiadau
- Strategaeth CAVS 2011/16.

## 8. Mwy o wybodaeth a manylion cyswllt

I gael mwy o wybodaeth am y ddogfen hon cysylltwch â'r –

Tim Polisi Corfforaethol

Ffôn: 01267 224914

Ebost: [CynllunioCymunedol@sirgar.gov.uk](mailto:CynllunioCymunedol@sirgar.gov.uk)

Neu ewch i'n gwefan [www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk](http://www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk)

